Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4

Gorffennaf 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau)
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **5**

**Argymhellion** **10**

**Deilliannau yn y celfyddydau creadigol** **11**

Cyflawniad yn y celfyddydau yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn 11
Safonau yn y celfyddydau yng Nghymru – y darlun cenedlaethol 16
Cyfraniad y celfyddydau creadigol at les disgyblion 24

**Y ddarpariaeth yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn** **28**

Cynllunio’r cwricwlwm 28
Addysgu 39

**Arweinyddiaeth a rheolaeth yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn** **46**

Uwch arweinwyr 46
Arweinwyr canol 48

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** **50**

**Geirfa/cyfeiriadau** **52**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** **55**

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2014-2015. Mae'r adroddiad yn archwilio safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 mewn ysgolion lle yr amlygwyd arfer dda.

Bwriedir yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i'r rhai sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol, hyfforddwyr athrawon a'r rheiny sy'n gweithio mewn sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol a sefydliadau'r celfyddydau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddeilliannau cenedlaethol mewn celf a dylunio, drama a cherddoriaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae holl adrannau eraill yr adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau yn yr ysgolion ag arfer orau, ac nid ydynt yn cyflwyno darlun cenedlaethol gan fod y sampl o ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw yn ysgolion ag adrannau celfyddydau cryfach.

Mae canfyddiadau'r arolwg wedi'u seilio ar ddadansoddiad o ganfyddiadau ymweliadau â 30 ysgol uwchradd lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn celf a dylunio, cerddoriaeth neu ddrama. Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, fe wnaeth arolygwyr arsylwi gwersi yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, cynnal trafodaethau ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, cyfweld â disgyblion a chraffu ar waith disgyblion a dogfennau adrannol. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi arfarniad o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn yr adrannau celf mwyaf effeithiol ar draws Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o arfer orau i ysgolion eraill eu hystyried. Bwriedir i'r rhain ysgogi trafodaethau mewn ysgolion a rhwng ysgolion er mwyn hybu arfer orau mewn addysgu a dysgu ar draws Cymru.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae 'celfyddydau' a 'chelfyddydau creadigol' yn cynnwys celf a dylunio, cerddoriaeth a drama.

## Cefndir

Mae celf a dylunio a cherddoriaeth yn bynciau sylfaen gorfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3. Mae drama yn elfen o'r cwricwlwm craidd ar gyfer Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 3, ond mewn llawer o ysgolion, caiff ei haddysgu'n bwnc ar wahân. Mae celf a dylunio, drama a cherddoriaeth yn bynciau dewisol yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, o dan Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion (Prydain Fawr, 2002).

Saif darpariaeth ysgolion ar gyfer y celfyddydau creadigol yn y cyd-destun addysgol ehangach yng Nghymru, sy’n cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- gwella safonau llythrennedd a rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol
- gweithredu cynllun ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol yng Nghymru

Lluniodd yr Athro Dai Smith (2013) adroddiad i Lywodraeth Cymru ar ‘Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru’. Rhoddir canfyddiadau allweddol o’r adroddiad isod:

- Yng Nghymru, mae rhywfaint o’r addysg gelfyddydol sy’n digwydd yn ein hysgolion, yn ddi-os, yn wych, er ei bod yn aml yn anghyson
- Mae’r gwaith hwn yn aml yn deillio o arweinyddiaeth eithriadol
- Dylai'r gwaith gael ei hyrwyddo, ei ddeall a’i ledaenu
- Ar lefel uwchradd, mae gormod o gyfyngiadau ar waith creadigol sy’n canolbwyntio ar y celfyddydau ar draws y cwricwlwm; mae llai o dystiolaeth o hyn mewn ysgolion cynradd

Mae’r Athro Smith yn dadlau y ‘dylid cyflwyno llu o brofiadau celfyddydol i fyfyrwyr … er mwyn gwneud pob ysgol yng Nghymru yn ysgol sy'n gyfoethog o ran y celfyddydau o ran cyflawniad neu uchelgais’, (t.11).

Mae’r adroddiad yn cyflwyno 12 argymhelliad ar gyfer integreiddio’r celfyddydau a chreadigrwydd i addysg yn well; derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un ohonynt ym Mawrth 2014. Mae’r rhain yn cynnwys argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru:

- gydnabod yn ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg gelfyddydol yn ysgolion Cymru drwy ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel yn y celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau
- hyrwyddo defnyddio'r celfyddydau i helpu i wella rhifedd a llythrennedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad
- cynnwys creadigrwydd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc ac mewn addysg gynradd ac uwchradd
- gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac ymarferwyr addysg profiadol i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus sy’n gysylltiedig â’r celfyddydau
- cefnogi ‘hyrwyddwyr celfyddydau’ ysgolion yn y cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu creadigol a Gwobrau Celfyddydau Cymru i athrawon unigol
- ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal archwiliad rheolaidd o ysgolion Cymru i asesu lefelau dysgu creadigol.

I ymateb i’r 12 argymhelliad yn adroddiad yr Athro Smith, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu, sef Dysgu creadigol drwy’r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020 (Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, 2015) a fydd yn cael ei gyflawni ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru. Bwriedir i’r cynllun helpu i gyflawni nifer o bolisïau a mentrau strategol Llywodraeth Cymru. Yn benodol, bwriedir i’r cynllun gweithredu gefnogi Cymwys am Oes: cynllun gwella addysg ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru,

2014), gan amlinellu camau i wella cyrhaeddiad addysgol ac adeiladu system addysg a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at economi gryfach, mwy o arloesedd, mwy o greadigrwydd ac at gyfalaf diwylliannol y genedl. Mae'r cynllun yn mynd ati i 'roi lle creiddiol i'r celfyddydau yn ein system addysg' (t.5), ac mae'n cynnwys tri phrif ffrwd:

- Gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd
- Cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr ym maes y celfyddydau
- Cefnogi ein hathrawon ac ymarferwyr y celfyddydau i ddatblygu eu sgiliau

Ym Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson gynnal Adolygiad sylfaenol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Yn Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Dyfodol Cynaliadwy'. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar diben i'r cwricwlwm. Mae'n argymell y dylai'r cwricwlwm ysgol cyfan gael ei gynllunio i helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan lawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Argymhellodd Donaldson y dylai strwythur y cwricwlwm gael ei seilio ar chwe Maes Dysgu a Phrofiad gan drefnu ar gyfer yr ystod oedran cyfan, o dair i 16 oed. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad arfaethedig:

- celfyddydau mynegiannol
- iechyd a lles
- dyniaethau
- ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- mathemateg a rhifedd
- gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae'r Adolygiad yn cynnig y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn rhan o gyfrifoldeb pob athro. Ym Mehefin 2015, derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o 68 argymhelliad Dyfodol Llwyddiannus.

Ym Mai 2015, cyhoeddodd Estyn Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ysgolion ag arfer orau yn y celfyddydau, a chanfu'r canlynol:

- mae'r safonau yn gyffredinol well na'r disgwyl mewn un neu ddau o bynciau'r celfyddydau ym mhob ysgol
- roedd deilliannau'n dibynnu'n helaeth ar arbenigedd a hyder aelod penodol o'r staff

- mae ansawdd y cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 yn dibynnu gormod ar siawns yn hytrach nag ar gynllunio'r cwricwlwm yn gadarn
- mae cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau, a'u profiad o'r celfyddydau, yn fwy tebygol o fod o safon uchel pan fydd uwch arweinwyr yn rhannu angerdd a gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol

**Celf a dylunio**

1 Mewn celf a dylunio yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn archwilio ystod dda o brosesau dau ddimensiwn. Maent yn ymarfer eu medrau'n annibynnol i gyflawni canlyniadau effeithiol mewn paent, pastelau a phensiliau ac, mewn lleiafrif o ysgolion, wrth wneud printiau. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd arfer dda, nid yw disgyblion yn archwilio amrywiaeth ddigonol o gyfryngau tri dimensiwn a lleiafrif yn unig sy'n defnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i greu delweddau digidol.

2 Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ennill dealltwriaeth dda o resymau pam y mae artistiaid yn gweithio fel y gwnânt a'r bwriadau sydd wrth wraidd eu gwaith. Defnyddiant eu dadansoddiad o waith artistiaid eraill yn ddychmygus i wella'u gwaith eu hunain.

3 Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill meistrolaeth gynyddol ar dechnegau a phrosesau fel y gallant gyfleu eu syniadau yn effeithiol. Mae eu llyfrau braslunio yn archwiliadau personol a bywiog o syniadau a phrosesau. Trwy ymchwilio ac arbrofi, mae gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn fwyfwy gwreiddiol. Maent yn gwella'u medrau lluniadu trwy ymateb yn ddychmygus i dasgau lluniadu arloesol a thrwy archwilio technegau yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mireinio'u syniadau trwy ymchwilio'n drylwyr ac maent yn integreiddio'u hastudiaethau o waith artistiaid eraill mewn ffyrdd dychmygus sy'n dangos lefel uchel o ddealltwriaeth.

**Drama**

4 Yng nghyfnod allweddol 3, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o syniadau mewn perfformio a chonfensiynau amrywiaeth o ffurfiau dramatig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol i lunio darnau syml, perfformiadau byrfyfyr a thablos. Maent yn strwythuro eu perfformiadau i fynegi ystod eang o gysyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r defnydd ar symud, ystum, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid a'r llais gyda brwdfrydedd a medr cynyddol i ddatblygu cymeriadau. Maent yn gweithio'n dda, yn unigol ac mewn grwpiau, i fireinio'u medrau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a chorfforol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymarfer ac yn perfformio darnau o ddramâu wedi'u sgriptio gydag ymroddiad. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg yn rhy aml i drafod eu syniadau pan fyddant yn gweithio mewn grwpiau.

5 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn arddangos dealltwriaeth dda o fedrau cyfarwyddwyr a thechnegwyr, ac mae lleiafrif ohonynt yn arbrofi'n ddychmygus gyda sain, y llais a goleuadau i greu awyrgylch.

6 Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn nodi nodweddion arddulliadol pwysig yng ngwaith ymarferwyr gosod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

defnyddio'u cyrff a'u lleisiau'n greadigol gyda rheolaeth, ac yn archwilio symudiadau haniaethol a chynefineg i greu darnau wedi'u dyfeisio sy'n cyfleu syniadau'n effeithiol. Mae'r disgyblion hynny sy'n gweithio gyda'r agweddau technegol ar theatr yn datblygu'u medrau'n dda. Gweithiant yn agos gyda'u cymheiriaid sy'n dilyn y llwybr actio er mwyn gwella'u perfformiadau.

**Cerddoriaeth**

7 Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u pwyntiau cychwyn unigol, er bod disgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 gydag amrywiaeth o brofiadau sy'n ehangach mewn cerddoriaeth nag mewn celf a dylunio neu ddrama. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau perfformio'n dda trwy feistroli repertoire mwyfwy beichus. Trwy ymarfer, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu ac yn chwarae'n gymwys yn eu rhannau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r elfennau cerddorol, yn dadansoddi amrywiaeth o arddulliau cerddorol ac yn defnyddio technoleg cerddoriaeth yn effeithiol i gyfansoddi darnau byr.

8 Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn perfformio gyda mynegiant a chywirdeb. Dangosant amgyffrediad sicr o gonfensiynau amrywiaeth fawr o arddulliau cerddorol. Maent yn hunanddisgybledig ac mae ganddynt lawer o gymhelliant i ymarfer, yn annibynnol i sicrhau meistrolaeth dechnegol ac ar y cyd i ddatblygu ymdeimlad o ensemble a pherfformiad. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau cerddorol mwyfwy cymhleth yn feirniadol. Maent yn gwrando'n wybodus i gymharu a chyferbynnu gwahanol berfformiadau o'r un darn, gan ddefnyddio ymatebion wedi'u rhesymu'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion lle mae disgyblion yn cyflawni'n dda, roedd disgyblion ar eu colled mewn gweithgareddau gwerthuso oherwydd eu medrau llythrennedd.

9 Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyfansoddi darnau gyda chryn wreiddioldeb sy'n tynnu ar eu cryfderau eu hunain fel perfformwyr. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn effeithiol iawn i lunio cyfansoddiadau.

**Cyfraniad addysgu a dysgu effeithiol yn y celfyddydau creadigol at les disgyblion**

10 Mae disgyblion yn gwella'u lles trwy brofiadau strwythuredig yn y celfyddydau. Mae'r celfyddydau'n helpu disgyblion i gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, gwella'u medrau cymdeithasol a datblygu eu dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill. Trwy ddysgu yn y celfyddydau, mae llawer o ddisgyblion yn ennill medrau bywyd pwysig, sef dysgu annibynnol, cynllunio a datrys problemau.

11 Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt drwy'r celfyddydau i fynegi eu syniadau eu hunain. Mae disgyblion yn sylwi bod ymarfer cyflwyno'u hymatebion personol yn rhoi mwy o hyder iddynt mewn meysydd eraill o fywyd a gwaith yr ysgol. At hynny, dywed disgyblion fod dathlu eu medrau celfyddydol yn gyhoeddus trwy arddangos a pherfformio wedi cael effaith gadarnhaol tu hwnt ar y ffordd y maent yn ystyried eu hunain a'u dyfodol.

## Safonau yn y celfyddydau creadigol ar draws Cymru

12 Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws Cymru, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5 neu uwch, mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth. Mae cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau ychydig yn uwch nag yn y pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg neu fathemateg.

13 Yng nghyfnod allweddol 4, celf a dylunio yw'r mwyaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau, gyda thua 25% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU ynddo. Bob blwyddyn, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU drama. Cerddoriaeth yw'r lleiaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau ar lefel TGAU, gyda rhyw 8% o ddisgyblion yn dewis yr opsiwn hwn. Yn yr ysgolion hynny â darpariaeth o ansawdd uchel, mae'r niferoedd yn aml yn uwch na'r cyfartaleddau hyn.

14 Mae llawer o ddisgyblion yng Nghymru sy'n dewis astudio TGAU celf a dylunio, cerddoriaeth neu ddrama yn cyflawni gradd A*-C. Mae cyflawniad disgyblion mewn cerddoriaeth yn well na'r cyflawniad mewn celf a dylunio ac mewn drama. Mae cyflawniad disgyblion ym mhynciau'r celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4 yn uwch o lawer na'u cyflawniad mewn Saesneg a mathemateg a mymryn yn uwch na'u perfformiad mewn Cymraeg.

15 Mewn nifer bach iawn o ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni'n dda ym mhob un o dri phwnc y celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'n fwy cyffredin i ddeilliannau disgyblion fod yn uwch yn un o bynciau'r celfyddydau. Y rheswm am hyn yw bod llwyddiant yr adrannau hyn yn deillio o arweinyddiaeth gadarn ar y pwnc ac addysgu cyson dda. Yn ogystal, ychydig o gydberthynas sydd rhwng yr ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau a'r ysgolion lle y mae gan ddisgyblion gyflawniad uchel yn y pynciau craidd.

16 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn ym mhob un o bynciau'r celfyddydau. O'r tri phwnc, mae cyfran uwch o fechgyn yn dewis cerddoriaeth ac mae eu cyflawniad yn well na chyflawniad bechgyn mewn celf a dylunio neu mewn drama.

17 Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cyflawni'n well yn y celfyddydau nag mewn llawer o feysydd pwnc eraill. O dri phwnc y celfyddydau, mae cyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn dewis dilyn TGAU celf a dylunio yn hytrach na dewis TGAU drama neu gerddoriaeth, ac mae eu cyflawniad yn well. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a disgyblion nad ydynt yn gymwys yn llai mewn celf a dylunio nag ydyw mewn drama neu gerddoriaeth, ac yn llawer llai na'r bwlch rhwng y ddwy garfan mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg.

## Profiadau dysgu yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol

18 Yn yr adrannau mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn dda iawn yng nghyfnod allweddol 3, sy'n rhoi sylfaen gadarn iddynt ar gyfer llwyddiant yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r adrannau hyn sy'n arddangos arfer dda hefyd yn datblygu cysylltiadau gwerthfawr â'u hysgolion cynradd bwydo, sy'n helpu i bontio rhwng y dysgu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

19 Mewn llawer o adrannau celf da, darperir ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog, sy'n helpu iddynt wneud y mwyaf o'u galluoedd. Mae'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol trwy waith allgyrsiol yn gysylltiedig ag asiantaethau ac ymarferwyr y celfyddydau. Fodd bynnag, mewn gwersi, nid yw lleiafrif o athrawon yn ymestyn cynnydd disgyblion mwy abl yn ddigon da.

20 Mewn ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau, mae athrawon yn cynllunio'n dda er mwyn datblygu llythrennedd disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu a llefaredd. Fodd bynnag, nid yw llawer o adrannau yn talu sylw digon da i ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion.

21 Mae llawer o adrannau celf da yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau digidol disgyblion. Fodd bynnag, hyn yn oed lle y gwelir arfer dda mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd mewn celf a dylunio ac mewn drama i ddisgyblion gynhyrchu gwaith creadigol gan ddefnyddio cyfryngau digidol.

22 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae amrywiaeth eang o weithgareddau celf allgyrsiol sydd o fudd arbennig i ddisgyblion difreintiedig, nad oes ganddynt bob amser y manteision gartref sydd gan eu cyfoedion mwy breintiedig. Mae llawer o ysgolion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio mannau ac offer arbenigol y tu allan i wersi, er enghraifft.

23 Mewn bron pob un o'r ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae gan athrawon wybodaeth ragorol am eu pwnc ac mae llawer ohonynt yn ymarferwyr ac yn gyfranogwyr gweithgar yn y celfyddydau. Defnyddiant eu harbenigedd i esbonio a modelu technegau yn hyfedr, ac maent o ddifrif o safbwynt y trylwyredd a'r ddisgyblaeth sy'n hanfodol ar gyfer cael deilliannau da yn y celfyddydau.

24 Yn y rhan fwyaf o ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae athrawon yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i werthuso'u gwaith eu hunain a gwneud cynnydd da. Maent yn cynllunio'n dda i ddisgyblion astudio gwaith ymarferwyr creadigol a chael profiad uniongyrchol o waith creadigol.

**Arweinyddiaeth ar y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol**

25 Ym mhob ysgol lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae uwch arweinwyr yn rhoi statws uchel i'r celfyddydau. Maent yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau wrth ddatblygu ethos cadarn yn yr ysgol a'u gwerth o ran hybu amgylchedd dysgu ysgogol a chreadigol i'r disgyblion.

26 Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn cefnogi eu hadrannau i alluogi disgyblion ar bob lefel gallu, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio, i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ychydig o'r ysgolion ag arfer dda, ni chaiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio'n ddigon da i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'n well yn y celfyddydau.

27 Mae uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn ag arfer dda yn cydnabod bod adrannau'r celfyddydau yn aml yn ffynhonnell arfer ragorol wrth ddatblygu creadigrwydd a medrau meddwl disgyblion. Mae ychydig uwch arweinwyr yn rhannu'r dulliau addysgu hyn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i wella arfer a deilliannau. Dim ond mewn ychydig ysgolion y mae uwch arweinwyr yn dechrau archwilio'n strwythuredig ddatblygiad dysgu creadigol ar draws yr ysgol i ymateb i adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson 2015).

28 Mae'r holl ysgolion ag arfer dda yn elwa o arweinyddiaeth gadarn ym mhynciau'r celfyddydau. Mae'r arweinwyr canol hyn yn aml yn athrawon da a rhagorol, gyda chryn arbenigedd yn eu pwnc. Maent yn arwain eu timau yn dda ac yn datblygu eu pwnc yn ddynamig.

29 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr pwnc yn dadansoddi gwaith eu hadrannau'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion, nid yw arfarniadau adrannol yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau grwpiau o ddisgyblion, nac ar gryfderau a gwendidau addysgu yn yr adran. O ganlyniad, nid yw cynlluniau gweithredu adrannol mewn ychydig adrannau yn ddigon manwl i amlygu meysydd penodol i'w gwella.

30 Mae arweinwyr pwnc mewn llawer o ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau yn datblygu eu harfer trwy weithio fel safonwyr i fyrddau arholi ac mae llawer o athrawon yn y celfyddydau yn elwa o ddiwrnodau hyfforddi'r pwnc sy'n cael eu cynnig gan y byrddau arholi. Fel arall, nid oes digon o gyfleoedd strwythuredig am ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon y celfyddydau yn benodol.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ddysgu o'r arfer orau sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwn

A2 Gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd mewn gwersi i ddisgyblion mwy abl ymestyn eu dysgu

A3 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, lle y bo'n briodol, mewn gwersi celf

A4 Gwneud yn siŵr bod adrannau celf yn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i greu gwaith celf sy'n datblygu cymwyseddau digidol disgyblion

A5 Arfarnu perfformiad disgyblion yn fanwl, ac felly hefyd y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu yn y celfyddydau, i lywio cynllunio adrannol

A6 Dadansoddi cyfraniad adrannau celf at fedrau disgyblion a datblygu strategaethau ar gyfer dysgu creadigol ar draws yr ysgol

A7 Gwneud defnydd gwell o'u cyllid grant i gefnogi disgyblion difreintiedig yn y celfyddydau creadigol

A8 Datblygu darpariaeth ac arfer yn y celfyddydau er mwyn cyfrif am argymhellion Dyfodol Cynaliadwy

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A9 Ddarparu mwy o gymorth i ysgolion ddatblygu hunanarfarnu effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwella yn y celfyddydau

A10 Cynnig profiadau dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr pwnc yn y celfyddydau

A11 Cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion difreintiedig a gweithio gydag asiantaethau'r celfyddydau ac ymarferwyr y celfyddydau

A12 Helpu ysgolion i adolygu datblygiad a dyluniad eu cwricwlwm gyda'r nod o fodloni argymhellion Dyfodol Llwyddiannus

## Deilliannau yn y celfyddydau creadigol

### Cyflawniad yn y celfyddydau yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn

**Celf a dylunio**

31 Yng nghyfnod allweddol 3, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau lluniadu yn dda. Mewn ychydig ysgolion, mae llawer o ddisgyblion yn lluniadu'n hyderus a chyda mynegiant o brofiad uniongyrchol, ac i lunio ymatebion personol. Maent yn lluniadu at ystod o wahanol ddibenion ac yn defnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau.

32 Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llyfrau braslunio yn effeithiol i ddatblygu syniadau ac arbrofi ag amrywiol brosesau, cyfryngau a thechnegau, ac i gynllunio'u gwaith yn ddilyniannol. Maent yn ysgrifennu nodiadau yn eu llyfrau braslunio i esbonio'u prosesau a'u syniadau'n feddylgar, yn casglu gwybodaeth am artistiaid ac yn arfarnu eu gwaith gyda gofal.

33 Mae llawer o ddisgyblion yn archwilio ystod dda o brosesau dau ddimensiwn ar amrywiaeth o raddfeydd. Maent yn ymarfer eu medrau'n annibynnol i gyflawni canlyniadau effeithiol mewn paent, pastelau a phensiliau ac, mewn lleiafrif o ysgolion, wrth wneud printiau. Enillant ddealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio lliw yn effeithiol.

34 Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion ag arfer dda, nid yw disgyblion yn archwilio amrywiaeth ddigon eang o gyfryngau tri dimensiwn, a dim ond mewn ychydig ysgolion y mae disgyblion yn gwneud gwaith cerameg. Lle y gwnânt hynny, mae gwaith disgyblion o safon uchel yn aml. Fel arfer, mae hyn o ganlyniad i arbenigedd yr athro.

35 Mae llawer o ddisgyblion yn trafod gwaith amrywiaeth o artistiaid o wahanol ddiwylliannau a chyfnodau, gan gynnwys enghreifftiau cyfoes. Enillant ddealltwriaeth dda o pam mae artistiaid yn gweithio fel y gwnânt a'r bwriadau sydd wrth wraidd eu gwaith. Maent yn cymharu a chyferbynnu gwaith gwahanol artistiaid yn feddylgar. Maent yn dadansoddi gwahanol arddulliau celf, crefft a dylunio, gan nodi nodweddion allweddol a defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn gywir.

36 Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio gwybodaeth y maent yn ei darganfod am wahanol artistiaid i wella'u gwaith eu hunain. Dechreuant trwy gopïo nodweddion neu dechnegau arddulliadol, ond nid ydynt yn gwneud copïau slafaidd o waith artistiaid eraill.

37 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau digidol yn dda. Enillant ddealltwriaeth dda o sut i ymchwilio'n effeithiol a defnyddiant ffotograffiaeth ddigidol i gofnodi'r gwaith sydd ar droed ganddynt ac i archwilio deunydd ffynhonnell. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n defnyddio meddalwedd TGCh i greu delweddau digidol.

38 Mae mwyafrif o ddisgyblion mwy abl yn gweithio i safon uchel iawn. Mae ychydig yn

gweithio fel ‘arbenigwyr technegol’ i gynorthwyo disgyblion eraill i gyflawni’n dda wrth ddysgu medrau ymarferol newydd. Cyfrannant syniadau blaengar a chraff at drafodaethau grŵp a dosbarth.

39 Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn adeiladu’n llwyddiannus ar y medrau, y dulliau a’r syniadau a ddysgont yng nghyfnod allweddol 3. Maent yn gwella’u medrau lluniadu trwy ymateb yn ddychmygus i dasgau lluniadu blaengar a thrwy archwilio technegau’n annibynnol.

40 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’u gwaith mewn llyfrau braslunio yn dda iawn fel bod y llyfrau’n dod yn archwiliadau personol a bywiog o syniadau a thechnegau ac, mewn ambell achos, yn ddyddiaduron gweledol. Maent yn mireinio’u syniadau trwy ymchwilio’n drylwyr ac yn integreiddio’u hastudiaethau o waith artistiaid eraill mewn ffyrdd dychmygus sy’n dangos lefel uchel o ddealltwriaeth. Maent yn ysgrifennu nodiadau ar eu gwaith i ddangos cynllunio, myfyrdod a datblygiad gofalus o brosesau a chysyniadau.

41 Mae disgyblion yn ennill meistrolaeth gynyddol ar dechnegau a phrosesau fel y gallant gyfleu eu syniadau’n effeithiol. Trwy ymchwilio ac arbrofi, mae eu gwaith yn datblygu’n fwyfwy gwreiddiol. Maent yn cyflwyno gwaith yn eu portffolios gyda gofal ac yn dod o hyd i ffyrdd gweledol priodol o ddangos datblygiad eu syniadau.

42 Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n dilyn opsiynau TGAU heblaw am ffotograffiaeth, yn defnyddio ffotograffiaeth ddigidol yn dda i ysgogi eu meddwl ac i archwilio syniadau. Mae ychydig ddisgyblion yn arddangos medrau technegol da o ran defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol yn ddychmygus i greu ymatebion personol.

**Drama**

43 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni’n llwyddiannus mewn drama, yng nghyfnod allweddol 3, mae bron pob un o’r disgyblion yn chwarae rhan weithgar yn y gwersi ac yn dangos dealltwriaeth dda o syniadau mewn perfformio ac o gonfensiynau amrywiaeth o ffurfiau dramatig.

44 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i amrywiaeth o ysgogiadau. Maent yn cyfuno’u gwybodaeth a’u medrau drama i ddyfeisio darnau syml. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithredu’n effeithiol i greu perfformiadau a thablos byrfyfyr. Maent yn archwilio ac yn dehongli syniadau diddorol ac yn strwythuro’u perfformiadau i gyfleu ystod eang o gysyniadau. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau da iawn o ran cynllunio’u gwaith a datrys problemau er mwyn mynegi syniadau yn effeithiol.

45 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio cymeriadaeth yn dda. Maent yn ymchwilio i’r defnydd ar symudiadau, ystumiau, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid a’r llais i greu cymeriad ac maent yn gweithio’n dda yn unigol ac mewn grwpiau i fireinio’u medrau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu’u medrau lleisiol a chorfforol yn effeithiol.

46 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymarfer ac yn perfformio darnau o ddrama wedi’u sgriptio gydag ymroddiad. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau actio cadarn ac yn defnyddio ategion a gwisgoedd syml yn symbolau i fynegi syniadau. Erbyn

diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn arddangos dealltwriaeth dda o fedrau cyfarwyddwyr a thechnegwyr, ac mae lleiafrif yn arbrofi'n ddychmygus â sain, lleisiau a goleuadau i greu awyrgylch.

47 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arfarnu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad pobl eraill yn dda. Maent yn dadansoddi'n feirniadol er mwyn nodi medrau a gwelliannau i wella perfformiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o dermau technegol yn gywir i arfarnu perfformiadau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg yn rhy aml i drafod eu syniadau wrth weithio mewn grwpiau.

48 Mae mwyafrif o ddisgyblion mwy abl yn cyfrannu'n llwyddiannus at wersi drama. Maent yn cymryd yr awenau mewn perfformiadau ac yn ymestyn eu medrau trwy gydweithio ag eraill i ysgrifennu sgriptiau a llunio perfformiadau.

49 Yn eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am gonfensiynau a dyfeisiau drama i greu sgriptiau byr. Mewn ychydig ysgolion, mae disgyblion yn creu ystod eang o destunau dramatig, gan gynnwys dramâu radio, monologau ac adrodd trwy drosleisio.

50 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dehongli deunydd o amrywiaeth o ffynonellau yn ddychmygus, gan gynnwys dramâu cyfoes a dramodwyr allweddol o hanes y theatr fel Shakespeare a Brecht. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig rhesymau da dros eu dewisiadau dramatig. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 3 yn seilio'u penderfyniadau ar eu gwybodaeth gynyddol am theatr hanesyddol a chyfoes. Maent yn gallu cymharu a chyferbynnu eu gwaith eu hunain â gwahanol arddulliau drama, er enghraifft melodrama neu gomedi slapstic.

51 Yng nghyfnod allweddol 4, mae safon gwaith grŵp yn uchel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n effeithlon ac yn gyflym. Maent yn rhannu syniadau'n effeithiol, yn trafod rolau a dulliau, ac yn cydweithio'n gynhyrchiol i greu ymatebion dramatig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio gydag egni ac ymroddiad. Maent yn arbrofi'n helaeth ac yn mireinio a gwella'u syniadau trwy gydol pob tasg. Mae llawer o ddisgyblion yn arfarnu eu perfformiadau eu hunain a phobl eraill yn feddylgar.

52 Mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa, gofod ac achlysur. Mae lleiafrif yn archwilio'r elfennau hyn mewn ffordd ddychmygus, gan gyfeirio'n dda at ymarferwyr, er enghraifft trwy archwilio ymagweddau Artaud at ryngweithio â'r gynulleidfa er mwyn ymchwilio i sut caiff teimlad ei gyfleu.

53 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth o arddulliau mewn drama. Maent yn nodi nodweddion arddulliadol pwysig ymarferwyr gosod ac yn archwilio a dehongli'r cysyniadau hyn yn feddylgar trwy waith byrfyfyr a thrwy weithio trwy ddetholiadau o destunau allweddol.

54 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u gwaith trwy ddefnyddio symudiadau hyderus a rheoledig ac yn archwilio'r defnydd ar y llais i fynegi gwahanol emosiynau ac effeithiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y defnydd ar symudiadau haniaethol a chynefineg, ac yn cymhwyso'u medrau'n effeithiol wrth greu darnau wedi'u dyfeisio. Mae ychydig ddisgyblion yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a chraffter yn eu perfformiadau.

55 Mae'r disgyblion hynny sy'n gweithio gydag agweddau technegol ar theatr yn datblygu'u medrau'n dda i adlewyrchu eu dewis arddull. Gweithiant yn agos gyda'u cymheiriaid sy'n dilyn y llwybr actio i wella'u perfformiadau. Mae ychydig ddisgyblion yn dylunio gwisgoedd, goleuadau a setiau gyda lefel uchel o weledigaeth greadigol.

**Cerddoriaeth**

56 Mewn bron pob ysgol lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn cerddoriaeth, mae disgyblion yn cyd-ganu'n rheolaidd mewn gwersi ac mewn agweddau eraill ar fywyd yr ysgol, fel gwasanaethau. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion o bob lefel gallu, gan gynnwys dechreuwyr, gymryd rhan mewn darpariaeth allgyrsiol o ansawdd uchel ac mae llawer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

57 Er bod profiadau disgyblion yn yr holl gelfyddydau yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywiol, mae'r amrywiaeth hwn yn fwyaf amlwg mewn cerddoriaeth. Mewn ysgolion ar draws Cymru, mae disgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 gydag amrywiaeth eang o brofiadau cerddorol, gan gynnwys disgyblion sydd wedi astudio rhywfaint o gerddoriaeth yn gyson, yn ogystal â'r rhai sydd wedi astudio offeryn y tu allan i'r ysgol ers rhai blynyddoedd. Er gwaethaf y gwahaniaeth hwn, mewn ysgolion ag arfer dda mewn cerddoriaeth, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u pwyntiau cychwyn unigol wrth ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth gerddorol er mwyn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

58 Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu mewn tiwn gyda brwdfrydedd, ynganu da a bywiogrwydd. Trwy gydol y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau perfformio yn dda trwy feistroli repertoire mwyfwy beichus. Trwy ymarfer, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu ac yn chwarae'n gymwys yn eu rhannau. Tuag at ddiwedd y cyfnod allweddol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu graddfa dda o ymwybyddiaeth arddulliadol ac mae ychydig yn dwyn eu dehongliad eu hunain i'r darnau y maent yn eu perfformio.

59 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau perfformio yn dda iawn. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn dysgu darnau mwy heriol eu hunain ac yn eu perfformio'n hyderus.

60 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r elfennau cerddorol ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i berfformio a chyfansoddi. Er enghraifft, gall disgyblion adnabod a dehongli gwahanol rythmau mewn sgoriau cerddoriaeth a gallant ddefnyddio'u gwybodaeth i greu amrywiaeth o rythmau wrth gyfansoddi melangan 12 bar.

61 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan ddefnyddio technoleg cerddoriaeth yn effeithiol yn aml i gyfansoddi darnau byr. Gall y rhan fwyaf ohonynt gymhwyso'u dealltwriaeth o strwythurau cerddorol sylfaenol i'w cyfansoddiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu deunyddiau yn ddychmygus ac yn mireinio'u darnau i ddatblygu eu syniadau cerddorol. Mae lleiafrif o ddisgyblion unigol yn cyfansoddi'n llwyddiannus iawn i ennill lefelau uwch.

62 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol. Mae gan lawer o ddisgyblion eirfa gerddorol ddatblygedig a gallant ddefnyddio termau technegol yn gywir ac yn briodol.

63 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddadansoddi ystod eang o arddulliau cerddorol ar lefel briodol, gan gynnwys pop, jazz, melangan, gwerin, clasurol a cherddoriaeth y byd. Dechreuant gymharu a chyferbynnu gwahanol ddarnau o gerddoriaeth, gan adnabod nodweddion arddulliadol yn gywir.

64 Daw llawer o ddisgyblion yn fwyfwy hyderus o ran darllen cerddoriaeth o lawysgrif a gallant enwi gwerth nodau a rhythmau yn gywir.

65 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau digidol da a gallant eu cymhwyso'n dda mewn cyd-destun cerddorol eang. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 7, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigon hyderus i ychwanegu traciau cyfeiliant a phatrymau cordiau priodol i gyd-fynd ag alawon y maent wedi'u cyfansoddi, gan ddefnyddio allweddellau electronig. Erbyn Blwyddyn 9, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhaglenni meddalwedd mewn stiwdios recordio ysgolion a stiwdios bach ar gyfer jamio mewn modd cymwys i berfformio eu fersiynau eu hunain o gerddoriaeth boblogaidd, gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau electronig. Maent yn gwella'u dealltwriaeth o'r angen am fanwl gywirdeb a gosod ciwiau yn ofalus wrth gyfansoddi'n ddigidol. Pan fydd disgyblion yn defnyddio recordio sain yn fwyaf effeithiol, maent yn ei ddefnyddio i wrando'n astud ar eu perfformiadau ac i nodi beth mae angen iddynt ei wneud i'w wella ymhellach.

66 Yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion llwyddiannus, mae mwyafrif o ddisgyblion yn berfformwyr hyderus sy'n gyfarwydd â pherfformio o flaen cynulleidfa. Maent yn perfformio gyda mynegiant a chywirdeb, a chydag amgyffrediad sicr o gonfensiynau amrywiaeth eang o arddulliau. Mae disgyblion yn perfformio'n dda mewn grwpiau. Maent yn hunanddisgybledig ac yn llawn cymhelliant i ymarfer, yn annibynnol i sicrhau meistrolaeth dechnegol ac ar y cyd i ddatblygu ymdeimlad o ensemble a pherfformio.

67 Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau cerddorol mwyfwy cymhleth yn feirniadol. Maent yn gwrando'n wybodus i gymharu a chyferbynnu perfformiadau gwahanol o'r un darn, gydag ymatebion wedi'u rhesymu'n dda. Mae ganddynt eirfa dechnegol ddatblygedig. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda, mae disgyblion ar eu colled mewn gweithgareddau gwerthuso oherwydd eu medrau llythrennedd. Mewn ychydig ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u geirfa Gymraeg yn ddigon da mewn trafodaethau yn y dosbarth. Maent yn cynnwys rhai geiriau Saesneg yn eu disgrifiadau ac weithiau'n troi berfau Saesneg yn rhai Cymraeg yn anghywir.


68 Mae llawer o ddisgyblion yn cyfansoddi darnau gyda chryn wreiddioldeb, gan fanteisio ar eu cryfderau eu hunain fel perfformwyr. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn effeithiol iawn i lunio cyfansoddiadau. Defnyddiant feddalwedd i greu darnau o ansawdd uchel gydag amrywiol leisiau, offerynnau a rhythmau y maent wedi'u creu eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar gordiau neu gyfeiliant a osodwyd ymlaen llaw.

## Safonau yn y celfyddydau yng Nghymru – y darlun cenedlaethol

### Cyfnod allweddol 3

69 Mewn asesiadau athrawon yn 2015 yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5 neu uwch, mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth (ffigur 1). Nid oes unrhyw asesiadau athrawon ar gyfer drama yng nghyfnod allweddol 3. O'r ddau bwnc, mae cyfran ychydig uwch o ddisgyblion yn cyflawni o leiaf lefel 5 mewn celf a dylunio nag y gwnânt mewn cerddoriaeth (Llywodraeth Cymru, 2015a).

**Ffigur 1: Canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau 5, 6 a 7+ mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru mewn celf a dylunio a cherddoriaeth, ar sail asesiadau athrawon, ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, 2012-2015**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015a)

70 Mewn celf a dylunio yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5 neu uwch mewn asesiadau athrawon, wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf o bron 86% yn 2012 i bron 92% yn 2015. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill y lefelau uwch wedi cynyddu hefyd dros yr un cyfnod ac, yn 2015, cyflawnodd dros hanner y disgyblion lefel 6 neu uwch a chyflawnodd tuag un o bob chwech o ddisgyblion lefel 7 neu uwch (ffigur 1) (Llywodraeth Cymru, 2015a).

71 Mewn cerddoriaeth yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill lefel 5 neu uwch mewn asesiadau athrawon wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf o bron 84% yn 2012 i ychydig dros 90% yn 2015. Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch wedi cynyddu hefyd dros yr un cyfnod ac, yn 2015, fe wnaeth ychydig o dan hanner y disgyblion gyflawni lefel 6 neu uwch a chyflawnodd ychydig o dan un o bob wyth o ddisgyblion lefel 7 neu uwch (ffigur 1) (Llywodraeth Cymru, 2015a).

72 Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae deilliannau disgyblion mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth yng nghyfnod allweddol 3 ychydig yn uwch na deilliannau yn y pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg a mathemateg (ffigur 2).

**Ffigur 2: Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 5 neu uwch) mewn asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3 yn y celfyddydau o gymharu â'r dangosydd pwnc craidd (DPC), Cymraeg, Saesneg a mathemateg mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2012-2015**


| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| DPC | 73% | 77% | 81% | 84% |
| Saesneg | 80% | 83% | 86% | 88% |
| Cymraeg | 84% | 88% | 90% | 91% |
| Mathemateg | 81% | 84% | 87% | 89% |
| Celf a dylunio | 86% | 89% | 91% | 92% |
| Cerddoriaeth | 84% | 87% | 91% | 92% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015a, 2015b)

**Cyfnod allweddol 4**

73 Mae llawer o ddisgyblion yng Nghymru sy'n dewis y celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn cwrs TGAU. Mae ychydig ysgolion yn cynnig cyrsiau BTEC. Ar lefel TGAU yn holl bynciau'r celfyddydau, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni gradd A*-C. O blith tri phwnc y celfyddydau, mae perfformiad disgyblion yn well mewn cerddoriaeth nag mewn celf a dylunio (sy'n wahanol i ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 3) ac mewn drama (ffigur 3).

**Ffigur 3: Canrannau'r disgyblion sy'n cyflawni gwahanol raddau mewn TGAU celf a dylunio, drama a cherddoriaeth, 2012-2015, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2015c

74 Mae nifer y disgyblion 15 oed sy'n ymgeisio am gymhwyster BTEC yn y celfyddydau wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010, er bod y nifer yn llawer is na'r nifer sy'n ennill

TGAU ym mhynciau'r celfyddydau. Mae mwy o ddisgyblion yn ymgeisio am BTEC mewn celf a dylunio na'r celfyddydau perfformio neu gerddoriaeth (ffigur 4).

**Ffigur 4: Nifer y disgyblion 15 oed sy'n ymgeisio am BTEC mewn celf a dylunio, cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio, mewn ysgolion a gynhelir, 2010-2015**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | | | | | | |
| BTEC Celf a dylunio | 337 | 601 | 998 | 1,403 | 1,494 | 1,259 |
| BTEC Cerddoriaeth | 79 | 265 | 435 | 498 | 593 | 507 |
| BTEC Celfyddydau perfformio | 388 | 567 | 896 | 1,081 | 1,043 | 895 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015d)

75 Yn yr ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn mewn celf a dylunio neu mewn cerddoriaeth, mae cysylltiad cryf rhwng cyflawniad uchel ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a pherfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

76 Mewn nifer bach iawn o ysgolion, mae perfformiad disgyblion yn uchel ym mhob un o dri phwnc y celfyddydau. Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn celf a dylunio, drama neu gerddoriaeth, mae hyn oherwydd bod gan y pynciau hyn arweinwyr pwnc effeithiol ac mae'r addysgu yn y pwnc yn gyson dda neu well.

77 Ar draws pob ysgol, ychydig iawn o gydberthynas sydd rhwng perfformiad disgyblion yn y celfyddydau a'u perfformiad yn y pynciau craidd.

78 Mae deilliannau disgyblion mewn TGAU celf a dylunio, drama a cherddoriaeth yn uwch o lawer nag mewn mesurau Saesneg a mathemateg lefel 2 ac ychydig yn uwch na pherfformiad disgyblion mewn Cymraeg mamiaith (ffigur 5).

**Ffigur 5: Canran yr ymgeisiadau TGAU celf sy'n cyflawni gradd A*-C[1], o gymharu â chanran yr ymgeisiadau mewn pynciau eraill mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2012-2015**


| | 2012 | | 2013 | | 2014 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymgais | A*-C | Ymgais | A*-C | Ymgais | A*-C | Ymgais | A*-C |
| **Saesneg iaith** | 32,553 | 62% | 33,776 | 62% | 32,743 | 64% | 31,724 | 66% |
| **Mathemateg** | 35,352 | 61% | 37,027 | 63% | 35,399 | 64% | 34,119 | 67% |
| **Cymraeg mamiaith** | 5,200 | 72% | 5,580 | 72% | 5,539 | 73% | 5,444 | 74% |
| **Celf a dylunio** | 9,197 | 78% | 9,370 | 78% | 8,894 | 78% | 8,690 | 77% |
| **Drama** | 3,287 | 71% | 3,025 | 72% | 2,847 | 72% | 2,802 | 75% |
| **Cerddoriaeth** | 2,841 | 81% | 2,732 | 81% | 2,681 | 83% | 2,691 | 81% |
| **Pob pwnc** | 265,319 | 67% | 264,929 | 68% | 252,611 | 70% | 245,891 | 72% |

[1] Canran yr ymgeisiadau TGAU gan ddisgyblion 15 oed a arweiniodd at radd C neu uwch; nid yw ymgeisiadau wedi'u 'disgowntio' wedi'u cynnwys

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015c, 2015e)

79 Yng nghyfnod allweddol 4, celf a dylunio yw'r mwyaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau, gyda rhyw chwarter o ddisgyblion yn ymgeisio am TGAU celf a dylunio bob blwyddyn. Ni fu newid yn y deilliannau dros y tair blynedd diwethaf, gydag ychydig dros dri chwarter o ddisgyblion yn ennill gradd A*-C a thua chwarter yn ennill y graddau uchaf, sef A*-A (ffigur 6).


**Ffigur 6: Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer TGAU celf a dylunio a chanran yr ymgeisiadau hynny a enillodd radd A*-A neu B-C, yn ôl rhyw, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2013 i 2015.**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015d)

80 Bob blwyddyn, mae tua 9% o ddisgyblion 15 oed yn sefyll TGAU drama. Mae tua thri chwarter yn ennill gradd A*-C gydag ychydig o dan chwarter yn ennill gradd A*-A. Mae perfformiad disgyblion mewn TGAU drama islaw perfformiad disgyblion mewn TGAU cerddoriaeth ac ychydig islaw perfformiad disgyblion mewn celf a dylunio yn y ddau fesur hyn (ffigur 7).

**Ffigur 7: Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer TGAU drama a chanran yr ymgeisiadau hynny a enillodd radd A*-A neu B-C, yn ôl rhyw, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2013 i 2015[1]**





[1] Ymgeisiadau gan ddisgyblion 15 oed; nid yw ymgeisiadau wedi'u 'disgowntio' wedi'u cynnwys

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015d)

81 Yng nghyfnod allweddol 4, cerddoriaeth yw'r lleiaf poblogaidd o blith y pynciau TGAU yn y celfyddydau, gyda thuag 8% o ddisgyblion yn dewis yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn TGAU cerddoriaeth yn well na pherfformiad disgyblion sy'n sefyll TGAU mewn celf a dylunio neu ddrama. Mae dros bedwar o bob pump o ddisgyblion yn cyflawni gradd A*-C, sef cyfran debyg i gyfran y tair blynedd diwethaf. Mae dros draean o ddisgyblion yn cyflawni gradd A*-A, sy'n uwch o lawer na chyflawniad disgyblion mewn TGAU celf a dylunio a drama (ffigur 8).

**Ffigur 8: Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer TGAU cerddoriaeth a chanran yr ymgeisiadau hynny a gafodd radd A*-A neu B-C, yn ôl rhyw, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2013 i 2015[1]**




[1] Ymgeisiadau gan ddisgyblion 15 oed; nid yw ymgeisiadau wedi'u 'disgowntio' wedi'u cynnwys

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015d)

**Cyflawniad bechgyn a merched yn y celfyddydau**

82 Mae mwy o ferched na bechgyn yn ymgeisio am bob un o bynciau'r celfyddydau. Mae tua dwywaith cymaint o ferched na bechgyn yn dewis TGAU celf a dylunio, a TGAU drama. Mae bechgyn a merched wedi'u rhannu'n fwy cyfartal o ran cyfrannau'r disgyblion sy'n dewis TGAU cerddoriaeth, gyda merched yn cyfrif am ryw 58% o'r disgyblion sy'n dewis astudio TGAU cerddoriaeth.

83 Mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn ym mhob un o bynciau'r celfyddydau. O'r tri phwnc, mae cyflawniad bechgyn mewn cerddoriaeth yn well na chyflawniad bechgyn mewn celf a dylunio neu mewn drama (ffigurau 6, 7 ac 8).

84 Mewn celf a dylunio, mae tua phump o bob chwech o ferched yn cyflawni gradd A*-C, o gymharu â rhyw bedwar o bob chwech o fechgyn. Mae tua 30% o ferched yn cyflawni gradd A*-A o gymharu ag ychydig dros 10% o fechgyn (ffigur 6). Mae'r bwlch hwn mewn perfformiad yn fwy na'r bwlch mewn drama neu gerddoriaeth (ffigurau 7 ac 8).

85 Mewn drama, mae cyfran y merched sy'n cyflawni A*-C wedi cynyddu ychydig dros y tair blynedd diwethaf.  Yn 2015, cyflawnodd 79% o ferched radd A*-C o gymharu â 67% o fechgyn.  Mae cyfran y merched sy'n cyflawni gradd A*-A wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r canran yn amrywio o 25% i 35%.  Mae cyfran y bechgyn sy'n cyflawni A*-A wedi bod yn is o lawer, sef tua 15% dros yr un cyfnod (ffigur 7).

86 Mewn cerddoriaeth, mae bechgyn yn cyflawni canlyniadau gwell na bechgyn sy'n dewis sefyll TGAU celf a dylunio neu ddrama, gydag ychydig o dan bedwar o bob pump yn cyflawni gradd A*-C.  Ar y graddau uchaf, sef A*-A, mae merched a bechgyn yn cyflawni'n well mewn cerddoriaeth nag yn nau bwnc arall y celfyddydau, gydag oddeutu 36% o ferched ac ychydig o dan 30% o fechgyn yn ennill graddau A*-A (ffigur 8).  O gymharu â chanlyniadau bechgyn ym mhob pwnc TGAU, mae perfformiad bechgyn mewn cerddoriaeth yn well na pherfformiad cyfartalog bechgyn ym mhob pwnc (ffigur 9).

**Ffigur 9:  Canran yr ymgeisiadau TGAU [1] sy'n cyflawni gradd A*-C yn ôl pwnc a rhyw, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2013-2015**

| | 2013 | | 2014 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **bechgyn** | **merched** | **bechgyn** | **merched** | **bechgyn** | **merched** |
| **Saesneg iaith** | 54% | 70% | 55% | 73% | 57% | 74% |
| **Mathemateg** | 63% | 62% | 64% | 64% | 67% | 66% |
| **Cymraeg mamiaith** | 63% | 81% | 64% | 82% | 66% | 83% |
| **Celf a dylunio** | 64% | 85% | 64% | 85% | 64% | 83% |
| **Drama** | 67% | 75% | 64% | 76% | 67% | 79% |
| **Cerddoriaeth** | 78% | 84% | 79% | 85% | 78% | 83% |
| **Pob pwnc**[2] | 63% | 73% | 66% | 75% | 67% | 76% |

[1] Canran yr ymgeisiadau TGAU gan ddisgyblion 15 oed sy'n arwain at radd C neu uwch; nid yw ymgeisiadau wedi'u 'disgowntio' wedi'u cynnwys
[2] Mae'n cynnwys pob cynnig TGAU a gasglwyd, nid yn unig y pynciau a ddangosir yn y tabl hwn.

Ffynhonnell:  Llywodraeth Cymru (2015c)

87 Efallai mai un rheswm dros hyn yw bod technoleg yn elfen allweddol o'r rhan fwyaf o gynlluniau gwaith cerddoriaeth.  Mae Estyn wedi adrodd (2008, 2014) fod natur ryngweithiol TGCh yn helpu i greu sefyllfaoedd dysgu lle y gall bechgyn ddysgu trwy wneud, gan gael adborth ar unwaith ac adeiladu gwybodaeth newydd yn barhaus. Mae'r ymagwedd hon yn cyfrannu at gynyddu cyflawniad bechgyn.


**Cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y celfyddydau**

88 Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cyflawni'n well yn y celfyddydau nag mewn llawer o feysydd pwnc eraill.

89 O'r disgyblion a ymgeisiodd am TGAU celf a dylunio, roedd cyfran y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) fymryn islaw cyfran yr holl ddisgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael PYDd.  Er nad yw disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn cyflawni cystal â'u cymheiriaid mwy breintiedig mewn unrhyw bwnc, mewn celf a dylunio, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a'r rhai nad ydynt

yn gymwys yn llai na'r bwlch ym mhynciau eraill y celfyddydau, ac mae eu cyflawniad yn well, gyda 63% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn cyflawni A*-C (ffigurau 10 ac 11).

**Ffigur 10: Canrannau'r disgyblion sy'n cyflawni A*-A neu B-C mewn TGAU yn y celfyddydau creadigol, yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim yn 2015[1]**




[1] Mae'n cynnwys disgyblion 15 oed sydd wedi'u paru rhwng Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn unig. Mae'r bar cyfan yn dangos y canran sy'n cyflawni A*-C.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015d, 2015f)

90 Mae cyfran y disgyblion a ymgeisiodd am TGAU drama sy'n gymwys i gael PYDd, sef 13% yn 2015, ychydig islaw'r gyfran yn y garfan gyfan, sef 17% yn 2015 (ffigur 10). Dim ond ychydig dros hanner y disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd sy'n cyflawni gradd A*-C mewn drama, sy'n llai na'r gyfran sy'n cyflawni'r un canlyniadau mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth (ffigur 10). Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a'r rhai nad ydynt yn gymwys, sy'n dilyn drama, yn fwy na'r bwlch mewn celf a dylunio ac ychydig yn llai na'r bwlch mewn cerddoriaeth (ffigur 11).

91 O gymharu â TGAU celf a dylunio a TGAU drama, mae cyfran y rhai sy'n ymgeisio am TGAU cerddoriaeth sy'n gymwys i gael PYDd yn llawer llai, sef tua 10%. Mae ychydig dros hanner y disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd sy'n dilyn TGAU cerddoriaeth yn cyflawni gradd A*-C (ffigur 10). Y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a'r rhai nad ydynt yn gymwys, sy'n cyflawni A*-C mewn TGAU cerddoriaeth, yw'r bwlch mwyaf ymysg y pynciau a ddangosir, sef 29 pwynt canran yn 2015 (ffigur 11).

92 Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a'r rhai nad ydynt yn gymwys, mewn celf ac mewn drama, yn llai na'r bwlch mewn Saesneg ac mewn mathemateg (ffigur 11).

**Ffigur 11: Canran yr ymgeisiadau TGAU sy'n cyflawni gradd A*-C[1], yn ôl cymhwysedd y disgyblion am brydau ysgol am ddim[2], 2013-2015**

| | 2013 | | | 2014 | | | 2015 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | PYDd | Dim PYDd | bwlch | PYDd | Dim PYDd | bwlch | PYDd | Dim PYDd | bwlch |
| Saesneg iaith | 37% | 67% | -30 | 38% | 69% | -30 | 42% | 70% | -28 |
| Mathemateg | 37% | 67% | -30 | 37% | 68% | -31 | 42% | 71% | -29 |
| Cymraeg mamiaith | 53% | 74% | -21 | 48% | 75% | -27 | 51% | 76% | -25 |
| Celf a Dylunio | 63% | 80% | -18 | 64% | 81% | -16 | 63% | 80% | -17 |
| Cerddoriaeth | 58% | 84% | -26 | 56% | 85% | -29 | 56% | 84% | -29 |
| Drama | 55% | 75% | -20 | 49% | 75% | -26 | 54% | 78% | -24 |

[1] Canran yr ymgeisiadau TGAU gan ddisgyblion 15 oed sy'n arwain at radd C neu uwch
[2] Mae'n cynnwys disgyblion sydd wedi'u paru rhwng Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn unig; mae'r bwlch yn seiliedig ar ganrannau heb eu talgrynnu

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015c, 2015e)

93 Mae adroddiad Estyn ar Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais (2012) yn amlinellu'r dulliau y mae ysgolion effeithiol yn eu defnyddio i wella cyflawniad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae addysgu a dysgu yn y celfyddydau yn darparu llawer o'r cyfleoedd hyn i gynorthwyo disgyblion sydd o dan anfantais oherwydd tlodi i gyflawni'n dda. Mae dysgu yn y celfyddydau yn helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda, yn enwedig eu hunan-barch a'u hyder. Mae gan athrawon yn y celfyddydau yr hyblygrwydd i deilwra'r cwricwlwm i anghenion a diddordebau penodol eu disgyblion. Mae adborth mynych ar gynnydd disgyblion a thrafodaeth rhwng athrawon a disgyblion yn nodweddion rheolaidd o'r gwersi gorau yn y celfyddydau, ac mae hyn yn helpu disgyblion i fagu eu hunanhyder a gwneud cynnydd da. Yn ogystal, mae'r celfyddydau mewn ysgolion yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae clybiau celf a'r gallu i ddefnyddio mannau â chyfarpar da yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol yn rhoi amgylchedd diogel a chreadigol i ddisgyblion weithio ynddo. Mae'r holl agweddau hyn yn helpu disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd i gyflawni'n dda.

## Cyfraniad y celfyddydau creadigol at les disgyblion

94 Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau eu profiadau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Edrychant ymlaen at eu dosbarthiadau, maent yn gwerthfawrogi gweithio gydag eraill ac yn cydnabod bod y celfyddydau yn cyfrannu'n sylweddol at eu gallu i weithio'n gynhyrchiol mewn timau.

95 Mae gan lawer o ddisgyblion berthynas waith dda â'r athrawon. Maent yn canmol medrau eu hathrawon fel ymarferwyr yn y celfyddydau. Credant fod eu hathrawon yn

eu cefnogi'n weithgar i gyflawni'n dda. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae eu hathrawon yn eu rhoi iddynt, er enghraifft i ddatblygu eu medrau trwy weithio gydag ymarferwyr yn y celfyddydau y tu allan i'r ysgol.

96 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydnabod ystod y medrau a ddatblygant yn y celfyddydau creadigol. Credant eu bod yn gwella'u creadigrwydd ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, datblygant eu medrau gweithio'n annibynnol a mynd ar drywydd rhagoriaeth. Dywed llawer o ddisgyblion fod drama yn datblygu eu hempathi tuag at eraill, a bod celf a dylunio a drama yn benodol yn eu helpu i archwilio materion moesol a chymdeithasol, gan gynnwys dealltwriaeth well o ddiwylliannau eraill. Mewn cerddoriaeth, dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn datblygu'r gallu i ymarfer hyd nes cael rhywbeth yn gywir. O ganlyniad, datblygant fedrau bywyd cryf o ran cynllunio a rheoli eu hamser, datblygu hunangyfeiriad a boddhad personol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod gweithio yn y celfyddydau creadigol yn rhoi mwy o hyder iddynt.

97 Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae'r celfyddydau creadigol yn eu rhoi iddynt i fynegi eu syniadau eu hunain. Maent yn mwynhau gweithio ar themâu personol sy'n eu helpu i archwilio agweddau ar eu hunigoliaeth. Mae ymarfer rhoi ymatebion personol yn rhoi mwy o hyder iddynt mewn meysydd eraill o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn sylwi bod eu gwaith mewn drama yn eu helpu i gyflwyno'u syniadau'n fwy rhugl i'w cymheiriaid a'u hathrawon mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn mynegi pryderon am berfformio o flaen pobl eraill mewn drama ac mewn cerddoriaeth.

98 Pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn cyfleoedd allgyrsiol yn y celfyddydau, maent yn cynyddu eu hunan-gred a'u hunan-werth. Mae'r agweddau cymdeithasol o bwys mawr i bron pob un o'r disgyblion, ynghyd â'r ymdeimlad o weithio mewn tîm a pherthyn a gânt trwy gymryd rhan ynddynt. Dywedant fod gweithgareddau allgyrsiol yn y celfyddydau yn eu helpu i gysylltu'n weithgar â'u cymuned leol trwy ddigwyddiadau fel perfformio ar gyfer pobl hŷn neu weithio gyda disgyblion yn yr ysgol gynradd.

99 Yn ogystal, mae disgyblion yn gwella'u hunan-barch ac yn datblygu'u medrau cymdeithasol yn dda trwy gydweithio ar gyfer perfformiad neu arddangosfa. Maent yn elwa'n fawr o weithio mewn tîm, datrys problemau gyda'i gilydd a helpu'i gilydd i wella'u medrau. Dywed disgyblion fod dathlu eu medrau celf yn gyhoeddus wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu barn amdanynt eu hunain a'u dyfodol.

100 Mae disgyblion sy'n teimlo'n arunig yn gymdeithasol o'r farn bod y celfyddydau'n rhoi mwy o hunan-werth iddynt a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n rhoi pleser iddynt, ochr yn ochr â chymheiriaid ac athrawon o'r un anian. Maent yn gwerthfawrogi'r 'hafan ddiogel' a ddarperir gan adrannau celf, er mwyn iddynt ymuno â chlybiau celf a dod o hyd i rywle i weithio lle y maent yn teimlo'n gyfforddus.

101 Er mwyn paratoi ar gyfer arholiadau ac asesiadau, mae llawer o ddisgyblion yn perchenogi eu dysgu a'u gwaith eu hunain gydag ymroddiad. Maent yn neilltuo mannau arbenigol ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ysgol i sicrhau eu bod yn gwella'u gwaith.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn defnyddio dysgu mewn drama i feithrin lles, amrywiaeth a dinasyddiaeth**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ysgol cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd, i fechgyn a merched rhwng 11 a 18 oed. Mae 1,081 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae ychydig o dan 6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 17% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac mae gan oddeutu 1% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith a'r gweddill o gartrefi lle y siaredir Saesneg yn unig. Mae'r holl ddisgyblion yn astudio cyrsiau arholi trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Strategaeth**

Mae arweinwyr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi sefydlu ethos gofalgar yn yr ysgol, lle caiff stereoteipiau eu herio a lle mae disgyblion yn eu cefnogi ei gilydd ac yn ymfalchïo yn amrywiaeth eu cymuned. Mae'r adran ddrama yn cyfrannu'n dda at yr ethos hwn.

**Gweithredu**

Mae'r adran ddrama wedi datblygu cynlluniau gwaith mewn drama yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n helpu disgyblion i archwilio teimladau a safbwyntiau trwy amrywiaeth o themâu ysgogol. Mae'r themâu hyn nid yn unig yn rhoi'r sylfaen i ddisgyblion ddatblygu eu medrau drama, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ond maent hefyd yn helpu disgyblion i archwilio'u teimladau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill trwy amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n peri iddynt feddwl.

Ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn dechrau trwy archwilio bwlio. Ânt ymlaen i ystyried teimladau yn ymwneud â cholled a sefydlu ffordd newydd o fyw trwy brosiect o'r enw 'Y Faciwî'. Yn 'Y Syrcas', mae disgyblion yn archwilio statws a chyfeillgarwch. Ym Mlwyddyn 8, mae astudio Macbeth yn galluogi disgyblion i archwilio gorfodaeth a chyfrifoldeb. Mae 'Anfarwolion' yn ymgymryd â safbwynt moesol er mwyn archwilio cymeriadau mytholeg Cymru, eu dewisiadau a'u camgymeriadau. Mae disgyblion Blwyddyn 9 yn archwilio breguster a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn 'Y Ddamwain', yna maent yn astudio Brecht, gan ganolbwyntio ar safbwyntiau ynghylch digartrefedd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn parhau i archwilio themâu sy'n ymwneud â materion moesol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n astudio 'Theatre of the Oppressed' gan Boal yn archwilio themâu trosedd, beichiogrwydd ifanc, esgeulustod ac effeithiau rhyfel ar feddwl milwr, ac mae disgyblion sy'n ystyried sut i lwyfannu 'A Midsummer Night's Dream' mewn cyd-destun cyfoes yn trafod sut y gallent gyfleu effeithiau llygredd neu ddatgoedwigo.

Yn ogystal, mae disgyblion yn hybu meddwl agored ac amrywiaeth trwy ddrama yng ngwaith y grŵp drama allgyrsiol 'Digon'. Mae grŵp Digon yn defnyddio drama i fynd

i'r afael â bwlio homoffobig a dileu iaith homoffobig. Mae myfyrwyr drama Blwyddyn 12 yn gyfrifol am gynnal gweithdai gyda disgyblion cyfnod allweddol 3. Mae disgyblion yn codi arian ar gyfer Stonewall Cymru ac wedi perfformio mewn llawer o ddigwyddiadau, gan gynnwys yn Eisteddfod yr Urdd.

**Effaith**

Mae lles yn yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r nifer prin iawn o achosion o fwlio sy'n digwydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae grŵp drama'r ysgol, 'Digon', yn hyrwyddo a phwysleisio datganiad cenhadaeth cyfle cyfartal yr ysgol yn dda iawn.

Mae perfformiad disgyblion mewn TGAU drama yn dda iawn. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, cyflawnodd 100% o ddisgyblion radd A*-C, ac ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, enillodd dros 40% o ddisgyblion radd A*-A.

## Y ddarpariaeth yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn

### Cynllunio’r cwricwlwm

#### Trefniadau’r cwricwlwm

102 Yn yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r arolwg hwn, caiff celf a dylunio, a cherddoriaeth eu haddysgu fel pynciau ar wahân yng nghyfnod allweddol 3. Yn y rhan fwyaf o’r ysgolion hyn, mae drama’n cael ei haddysgu fel pwnc ar wahân yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion, nid yw drama’n cael ei chynnig fel pwnc ar wahân mwyach yng nghyfnod allweddol 3, ac mewn nifer bach iawn o achosion, mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ymgeisiadau a deilliannau yng nghyfnod allweddol 4.

103 Mae’r holl ysgolion ag arfer dda yr ymwelwyd â nhw yn darparu celf a dylunio, cerddoriaeth a drama yn opsiynau yng nghyfnod allweddol 4. Mae ychydig o’r ysgolion hyn hefyd yn cynnig y dewis i ddisgyblion dilyn cymhwyster BTEC yn y celfyddydau. Mae hyn yn rhoi cyfle da i ddisgyblion ddilyn llwybr galwedigaethol, er enghraifft mewn agweddau technegol ar y celfyddydau perfformio, lle y bo hyn yn fwy addas i’w hanghenion.

104 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau yn cynnwys o leiaf un wers rhwng 50 a 60 munud yr wythnos yn yr amserlen ar gyfer pob pwnc celf yng nghyfnod allweddol 3. Mae ychydig ysgolion wedi cynyddu cyfanswm yr amser a roddir i bob pwnc celf ac yn darparu tair neu bedair gwers 50 i 60 munud bob pythefnos. Yng nghyfnod allweddol 4, mae’r holl ysgolion hyn ag arfer dda yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ddilyn eu cyrsiau, sef tua phum awr bob pythefnos fel arfer. Fodd bynnag, mewn llawer o’r ysgolion hyn ag arfer dda, mae athrawon yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth yn ystod yr amser cinio ac ar ôl ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

105 Dywed ychydig athrawon, yn enwedig mewn celf a dylunio, fod gwersi sy’n llai nag awr yn peri anawsterau penodol, er enghraifft wrth weithio ar ddarnau tri dimensiwn ar raddfa fawr, a bod hyn yn cyfyngu ar gwmpas cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, lle y caiff pynciau celf eu haddysgu ar ffurf ‘gwersi dwbl’ o ryw ddwy awr, nid yw athrawon bob amser yn gwneud y defnydd gorau o’r amser sydd ar gael ac mae disgyblion yn gweithio’n rhy araf.

106 Yn yr adrannau celf mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn cydweithio’n effeithiol i lunio cynlluniau gwaith creadigol, cyffrous a difyr. Mae athrawon yn adolygu eu cynlluniau gwaith yn rheolaidd, gan arfarnu effaith y cynnwys a’r dulliau ar gyflawniad disgyblion.

107 Mewn adrannau mwy, mae athrawon yn manteisio’n dda ar eu harbenigeddau unigol i gyfrannu eu gwybodaeth arbenigol. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau gwaith yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o brofiadau i ddisgyblion.

108 Mewn ychydig achosion, mewn adrannau â llai o athrawon neu, mewn ambell enghraifft, dim ond un aelod staff, mae athrawon yn dod o hyd i ffyrdd gwerthfawr o

ategu eu gwybodaeth i lunio cynlluniau gwaith dwfn ac eang. Er enghraifft, yn awdurdod lleol Abertawe, mae athrawon y celfyddydau yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu adnoddau a syniadau. Mae athrawon yn ychwanegu eitemau o ddiddordeb at agenda'r cyfarfod, fel tangyflawni gan fechgyn, ac mae athrawon yn cydweithio, weithiau gydag ymarferwyr o addysg bellach neu addysg uwch, i ddod o hyd i atebion. Mae llawer o ysgolion sy'n cyfrannu at hyfforddiant cychwynnol athrawon yn sôn am gyfraniad pwysig athrawon dan hyfforddiant, sy'n aml â phrofiad gwerthfawr a diweddar iawn yn y brifysgol neu mewn diwydiant, at syniadau a thechnegau ymarferol yn eu cynlluniau gwaith adrannol.

109 Mewn ychydig ysgolion, mae athrawon yn dechrau cydweithio i ystyried gweithredu Dyfodol Llwyddiannus a sut gallai adrannau celf gydweithio er mwyn ymateb i'r adolygiad o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion ag arfer orau sydd ag adrannau celf llwyddiannus tu hwnt, nid oes gan athrawon ddigon o ymwybyddiaeth o'r adolygiad o'r cwricwlwm ac nid ydynt eto wedi dechrau archwilio sut y gallent ddatblygu eu darpariaeth a'u harfer.

**Bodloni anghenion pob disgybl**

110 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae arweinwyr pwnc yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu cwricwlwm sy'n addas i'w hanghenion, galluoedd a dyheadau. Maent yn canolbwyntio ar lunio cwricwlwm sy'n rhoi cyfle i bob disgybl lwyddo. Maent yn sensitif i unrhyw rwystrau diwylliannol neu ariannol y gallai disgyblion eu hwynebu yn y celfyddydau. Maent yn dewis enghreifftiau cyd-destunol sy'n dathlu celf gwahanol leoedd, pobl a diwylliannau, ac maent yn sicrhau bod darpariaeth allgyrsiol ar gael i bawb.

**Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi addasu'r ddarpariaeth mewn cerddoriaeth i ymgysylltu â disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ysgol gymunedol gymysg, 11-19 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu rhai ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd. Ar hyn o bryd, mae 1,648 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae ychydig dros 35% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron 35% o ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae 46% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a daw 82% o ddisgyblion o gartrefi lle y siaredir ieithoedd eraill. Mae dros 50 o ieithoedd yn cael eu siarad yng nghymuned yr ysgol.

**Strategaeth**

Mae gan yr ysgol leiafrif sylweddol o ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol gydag ychydig bach iawn o Saesneg. Caiff y disgyblion hyn eu haddysgu mewn grwpiau trochi oed cymysg hyd nes bod digon o Saesneg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ganddynt i integreiddio a manteisio ar y cwricwlwm prif ffrwd. Mae'r ysgol yn teilwra cwricwlwm cyfnod allweddol 3 ar gyfer y disgyblion hyn er mwyn cynnig mwy o ddarpariaeth yn y celfyddydau. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion wella'u llefaredd mewn cyd-destun ymarferol a magu hyder trwy alluogi disgyblion i gyflawni yn y

celfyddydau, ac mae hefyd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant y gorllewin. Mae hyn yn helpu’r disgyblion hyn i integreiddio’n fwy llwyddiannus i gymuned yr ysgol. Mae’r adran gerddoriaeth yn targedu disgyblion o ddwyrain Ewrop yn benodol, y daw’r rhan fwyaf ohonynt o gymunedau â thraddodiad llafar cryf mewn cerddoriaeth. Nod yr ysgol yw adeiladu ar y medrau hyn i alluogi disgyblion i gyflawni ym meysydd eraill y cwricwlwm.

**Gweithredu**

Mae dwy set Saesneg fel ail iaith (SSIE) yng nghyfnod allweddol 3 a phedair set yng nghyfnod allweddol 4. Pan fydd gan ddisgyblion sy’n newydd i’r wlad fedrau Saesneg cyfyngedig, maent yn dechrau yn set 1 ac yn symud ymlaen drwy’r setiau hyn wrth iddynt wella.

Mae disgyblion â SIY yn cael mwy o ddarpariaeth cerddoriaeth na’r rhai sy’n dilyn y cwricwlwm llawn. Mae hyn oherwydd bod llawer o ddisgyblion SIY, yn enwedig y rhai o wledydd dwyrain Ewrop, yn ei chael hi’n hawdd cael at gerddoriaeth ymarferol. Mae’r holl weithgareddau cerddorol yn cael eu cysylltu’n effeithiol â chaffael llythrennedd ac iaith, er enghraifft trwy ddefnyddio drymio i ymarfer patrymau iaith a phwysleisio’r sillafau cywir i wella medrau llefaredd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae’r disgyblion SIY hyn yn cael tair gwers gerddoriaeth bob pythefnos. Mae disgyblion yn cyflawni’n dda, fel arfer yn well nag mewn meysydd pwnc eraill, ac mae hyn yn rhoi’r hunan-gred iddynt lwyddo yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 4, gall disgyblion SIY ddewis astudio cymhwyster BTEC mewn cerddoriaeth am bum gwers bob pythefnos dros gyfnod o flwyddyn. Mae disgyblion ag ychydig iawn o Saesneg yn astudio’r un cymhwyster am saith awr bob pythefnos dros ddwy flynedd.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod disgyblion sydd â mynediad cyfyngedig at brofiadau diwylliannol y tu allan i’r ysgol yn dysgu offeryn cerdd lle bynnag y bo’n bosibl. Mae’r ysgol yn defnyddio cyllid o’i Grant Amddifadedd Disgyblion i ddarparu hyfforddiant cerddorol i ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ogystal, trefnir i nifer bach o ddisgyblion, sydd islaw’r trothwy tlodi ond nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, fynychu gwersi cerdd peripatetig.

**Effaith**

Yn 2014, gadawodd 19 o ddisgyblion o SSIE 2 a 3 â thystysgrif estynedig BTEC lefel 2 mewn cerddoriaeth.

Yn 2015, fe wnaeth yr holl ddisgyblion a ddilynodd y cwrs BTEC gyflawni’r cymhwyster. Roedd hyn yn cynnwys chwe disgybl o ddwyrain Ewrop a enillodd dystysgrif estynedig BTEC lefel 2 mewn cerddoriaeth. Trwy ennill y cymhwyster hwn, cyflawnont drothwy lefel 2, gan eu galluogi i fanteisio ar addysg bellach a chyfleoedd hyfforddi. Yn ogystal, fe wnaeth tri disgybl a oedd yn astudio yn nosbarth SSIE 1 gyflawni Tystysgrif BTEC lefel 2 mewn cerddoriaeth.

111 Mae mwyafrif o adrannau celf llwyddiannus wedi cau'r bwlch cyflawniad rhwng bechgyn a merched. Maent yn llunio cynlluniau gwaith sy'n cynnig gweithgareddau difyr sy'n ennyn diddordeb bechgyn a merched. Mae gweithgareddau yn amrywiol ac mae athrawon yn cynnig llawer o gyfleoedd dewis o ran dulliau gweithio a syniadau. Caiff ymatebion personol disgyblion eu hannog a'u dathlu. Mae llawer o adrannau wedi darganfod bod cynyddu lefel y gwaith digidol a thechnegol yn ennyn diddordeb bechgyn yn dda. Cynigiant amrywiaeth o ffyrdd i ddisgyblion ymchwilio, cofnodi ac arfarnu eu canfyddiadau, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gofnodi ymatebion llafar a gweledol.

**Ysgol Lewis Pengam wedi datblygu ei chysylltiadau busnes yn y celfyddydau i wella dyheadau a chyflawniad**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Lewis Pengam yn ysgol gymunedol 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Caerffili. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau a oedd gynt yn bentrefi glo yng Nghwm Rhymni. Mae'r dalgylch yn wasgaredig iawn ac mae'r lefel diweithdra yn uchel. Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn fechgyn. Mae 802 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn 2015, roedd 23.6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn hyrwyddo'r celfyddydau fel agwedd bwysig ar ethos yr ysgol. Mae'r bwrdd anrhydeddau sy'n cael ei arddangos yn yr ysgol yn dathlu nid yn unig gyflawniad mewn chwaraeon, ond yn y celfyddydau hefyd. Mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth cerddoriaeth i ennyn diddordeb ei bechgyn ac i gynyddu eu cyfleoedd am waith.

**Gweithredu**

Mae'r ystafelloedd cerdd a'r ystafelloedd ymarfer yn cynnig amgylchedd dysgu rhagorol. Mae gan yr adran lefel dda o offer technoleg, gan gynnwys cyfrifiaduron, allweddellau sy'n gydnaws â midi ac offer recordio. Mae'r adran wedi buddsoddi ym meddalwedd safonol y diwydiant sy'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer byd gwaith. Mae'r adran gerddoriaeth yn adolygu cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 3 yn rheolaidd er mwyn cynnwys ystod eang o arddulliau cerddorol diddorol a llawer o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n ymarferol a gweithio gyda thechnoleg cerddoriaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig TGAU a BTEC mewn technoleg cerddoriaeth. Mae disgyblion yn dewis opsiwn BTEC fwyfwy oherwydd y cyfleoedd galwedigaethol y mae'r ddarpariaeth hon yn eu cynnig. Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd sy'n dewis technoleg cerddoriaeth yn uwch na'r gyfran sy'n dewis unrhyw opsiwn arall yng nghyfnod allweddol 4.

Yn ogystal, mae'r pennaeth cerddoriaeth wedi datblygu rhaglen ysgrifennu caneuon, gyda chefnogaeth Datblygiad Celf Cyngor Bwrdeistref Caerffili a'r gantores/cyfansoddwr Amy Wadge, sy'n byw yng Nghymru ac wedi ennill gwobr Grammy. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cynllun ysgoloriaeth, sy'n cefnogi dau fachgen mwy abl bob blwyddyn i ysgrifennu, perfformio a chynhyrchu eu

cerddoriaeth eu hunain. Mae'r adran yn defnyddio cyn-ddisgyblion sy'n gweithio ym myd cerddoriaeth a ffilm yn dda iawn, er mwyn cynnig cipolwg i waith yn y diwydiannau creadigol.

**Effaith**

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o blith ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd am brydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n dewis cerddoriaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae canlyniadau mewn TGAU cerddoriaeth wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, enillodd bron 92% o ddisgyblion radd A*-C, gyda 58% o ddisgyblion yn cyflawni gradd A*-A. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae 100% o ddisgyblion wedi llwyddo mewn Technoleg Cerddoriaeth BTEC lefel 2, gyda 57% yn cyflawni'r graddau uchaf, sef rhagoriaeth / rhagoriaeth* yn 2015. Yn 2015, aeth 58% o ddisgyblion ymlaen i astudio cwrs cerddoriaeth lefel 3 yng nghyfnod allweddol 5.

112 Mewn llawer o adrannau celf da, gwneir darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae prosiectau arbennig, sy'n caniatáu i ddisgyblion mwy abl weithio gyda'i gilydd, a chyfleoedd i bob disgybl weithio'n 'arbenigwyr', i gyd yn helpu disgyblion mwy abl i gyflawni'n dda. Yn Ysgol Cwmtawe yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r adran yn defnyddio'i hamgylchedd dysgu rhithwir i ddarparu tiwtorialau ar-lein i ddisgyblion mwy abl. Mae hyn yn datblygu'u hannibyniaeth ac yn galluogi'r disgyblion hyn i fanteisio ar waith ymestyn strwythuredig, er enghraifft trwy awgrymu ffyrdd y gall disgyblion ddatblygu eu defnydd ar y cyfryngau, neu trwy gynnig syniadau ar gyfer ymchwilio i ystod ehangach o artistiaid.

113 Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn cyfeirio'n ddefnyddiol yn eu cynlluniau gwaith at ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag, mae'r cymorth mwyaf effeithiol i'r disgyblion mwy abl yn dod o gysylltiadau â sefydliadau eraill a phrosiectau y tu allan i'r ysgol. Mae ychydig ysgolion yn gwneud defnydd da ar brosiectau a ddarperir gan yr awdurdod lleol a Chyngor y Celfyddydau, er enghraifft, 'Criw Celf', sef grŵp o artistiaid proffesiynol sy'n gweithio gyda disgyblion mwy abl ym maes celf a dylunio i ddarparu cyfres o 'ddosbarthiadau meistr'. Mae llawer o ysgolion ag adrannau cerdd cryf yn mynd ati i hybu aelodaeth o gorau a cherddorfeydd ieuenctid cenedlaethol uchel eu parch, fel Only Boys Aloud a Cherddorfa Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, er mwyn datblygu medrau a phrofiadau eu perfformwyr mwyaf abl.

114 Mae ychydig ysgolion wedi datblygu cysylltiadau â sefydliadau eraill i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl. Er enghraifft, yn Ysgol Pentrehafod yn Abertawe, mae'r adran gelf wedi llunio cysylltiadau cynhyrchiol â'r sefydliad addysg bellach lleol i ddarparu gweithdai i'w disgyblion mwy abl.

**Meithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn gynyddol**

115 Yng nghyfnod allweddol 3 yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau gallu cymysg. Mewn llawer o ysgolion, dywed athrawon fod y medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y celfyddydau sydd gan ddisgyblion

sy'n dechrau'r ysgol uwchradd wedi dirywio'n gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Fwyfwy, mae profiad blaenorol disgyblion a'u safonau yn y celfyddydau yn llawer mwy amrywiol. Darganfu adroddiad Estyn (2015) fod ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y celfyddydau yn dibynnu'n ormodol ar siawns a ph'un a oes gan yr athro wybodaeth arbenigol, hyd yn oed mewn ysgolion cynradd ag arfer effeithiol. Yn ogystal, yn ôl yr adroddiad, roedd yr amser a neilltuwyd i'r celfyddydau creadigol mewn dros hanner yr ysgolion cynradd a holwyd wedi gostwng yn ddiweddar, ac roedd lleiafrif o ysgolion yn honni bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cyfyngu ar yr amser ac adnoddau a oedd ar gael ar gyfer y celfyddydau creadigol. Yng nghyfnod allweddol 3, mewn ysgolion da, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ym Mlwyddyn 7 sy'n ystyried anghenion amrywiol disgyblion a'u profiadau blaenorol yn dda.

116 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae athrawon yn sefydlu cysylltiadau da â'u hysgolion cynradd bwydo. Cynhaliant ymweliadau rheolaidd, maent yn rhannu eu medrau arbenigol ac yn cynllunio ochr yn ochr ag athrawon cyfnod allweddol 2 i sicrhau dilyniant medrau. Er enghraifft, yn Ysgol Dyffryn Conwy, mae athrawon celf yn cyfarfod yn aml â'u cydweithwyr cynradd. Maent wedi cynnal gweithdai gwneud printiau ac yn cydweithio i asesu gwaith disgyblion. Mae ychydig ysgolion yn defnyddio llyfrynnau i ddisgyblion sy'n caniatáu iddynt barhau â phrosiectau a syniadau o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

117 Mewn ychydig ysgolion, mae athrawon wedi creu prosiectau arloesol i ddatblygu cysylltiadau mewn dysgu rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Er enghraifft, fe wnaeth disgyblion yn Ysgol Lewis Pengam ac Ysgol Gynradd Ystrad Mynach gydweithio ar brosiect mewn partneriaeth â BBC Learning i ddatblygu ymatebion personol i gerddoriaeth glasurol. Cafodd y cyfansoddiad a'r fideo a ddeilliodd o'r prosiect, 'No-one else tonight', ei ysgrifennu, ei berfformio a'i gynhyrchu gan ddisgyblion gan ddefnyddio cordiau 'Zadok the Priest' gan Handel, ac mae ganddo neges gwrthfwlio.

118 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae athrawon yn cynllunio cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 â sylfaen dda iddynt sy'n rhoi i ddisgyblion y medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus i gyfnod allweddol 4. Cyflwynant amrywiaeth eang o brofiadau fel y gall disgyblion ddewis eu hopsiynau yn wybodus.

119 Mae athrawon mewn adrannau llwyddiannus yn cynllunio fel bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol. Talant sylw gofalus i sut mae prosiectau olynol yn meithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Rhoddant gyfleoedd dysgu sy'n caniatáu amser i ddisgyblion ymarfer a mireinio'u medrau, a datblygu'u syniadau. Mae hon yn elfen allweddol ar gyfer datblygu hyder disgyblion wrth gynhyrchu darnau celf neu berfformio.

**Pwysigrwydd gwaith cyd-destunol: defnyddio gwaith ymarferwyr**

120 Mae athrawon mewn adrannau ag arfer dda yn creu cynlluniau gwaith sy'n cynnig ystod eang o brofiadau ymarferol i ddisgyblion. Fodd bynnag, maent yn cydnabod hefyd mai elfen bwysig o alluogi disgyblion i fod yn greadigol yw astudio gwaith ymarferwyr creadigol. Maent yn llunio cynlluniau gwaith sy'n datblygu dealltwriaeth

disgyblion o amrywiaeth eang o gyd-destunau y mae'r celfyddydau yn cael eu creu ynddynt a rhoddant lawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arfarnu a gwerthuso.

121 Yn yr adrannau celf mwyaf effeithiol, mae athrawon yn dewis ystod ddifyr o enghreifftiau cyd-destunol, yn rhai lleol a byd-eang, cyfoes a hanesyddol, sy'n herio amgyffredion disgyblion. Eu nod yw darparu corff rhesymegol o wybodaeth am eu maes yn y celfyddydau, sy'n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion, yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau ac yn eu helpu i ymgymryd ag ystyr yn y celfyddydau.

122 Mae adrannau llwyddiannus yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion wylio a gwrando ar berfformiadau byw a chael profiad uniongyrchol o waith celf. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac i ddisgyblion na fyddent fel arfer yn cael y profiadau hynny. Mae'r holl adrannau celf da yn trefnu ymweliadau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n cyfoethogi eu hastudiaethau.

123 Mae llawer o adrannau da yn gwneud y mwyaf o'r celfyddydau yn eu cymuned leol. Gwnânt ddefnydd helaeth o orielau lleol a pherfformiadau gan grwpiau cymunedol. Hefyd, rhoddant gyfleoedd i ddisgyblion berfformio ac arddangos yn y gymuned. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned ac yn cynyddu'u hyder.

124 Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, nid yw mwyafrif o adrannau yn mynd â disgyblion i orielau, perfformiadau a chyngherddau ymhellach i ffwrdd, er enghraifft i weld casgliadau pwysig neu waith gan berfformwyr a gydnabyddir yn genedlaethol, er eu bod yn cydnabod bod hyn yn rhan bwysig o ddysgu disgyblion yn y celfyddydau. Mae trefnu'r teithiau hyn yn anodd iddynt oherwydd cyfyngiadau'r amserlen a chyfyngiadau staffio. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion, na fydd rhai ohonynt efallai'n astudio'r celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4.

125 Mae'r rhan fwyaf o adrannau celf da yn trefnu i ddisgyblion weithio gydag ymarfewryr celf. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau y tu hwnt i arbenigedd athrawon yn yr adran ac mae'n rhoi profiad i ddisgyblion o 'gelf yn y byd go iawn', gan gynnwys dealltwriaeth o yrfaoedd ym myd celf. Mae ychydig adrannau yn gwneud defnydd da iawn o ymarferwyr sydd â chysylltiad â'r ysgol, naill ai cyn-ddisgybl neu rywun sy'n gweithio yn yr ardal leol. Mewn ychydig achosion, mae'r ymarferwyr hyn yn enwog iawn yn eu maes. Er enghraifft, mae disgyblion yn Ysgol Sandfields wedi cymryd rhan mewn gweithdy gyda'r actor Michael Sheen, ac mae disgyblion yn Ysgol Tryfan wedi elwa o weithio gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a chyn-ddisgyblion sy'n gerddorion proffesiynol. Yn Ysgol Gyfun Cymer Rhondda, mae Tim Rhys Evans, sef cyfarwyddwr cerdd Only Men Aloud, yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ysbrydoli bechgyn i gymryd rhan mewn corau. Caiff y cyfleoedd hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad a dyheadau disgyblion.

**Datblygiad llythrennedd a rhifedd**

126 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion mewn gwersi celf ac mewn cynlluniau gwaith yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cynllunio ar gyfer llythrennedd yn sensitif i alwadau cwricwla'r celfyddydau, ac mae athrawon yn integreiddio profiadau dysgu mewn llythrennedd

mewn ffyrdd sy’n helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn y pynciau, yn hytrach na chynllunio gweithgareddau ar wahân ‘ychwanegol’ i gyflawni gofyniad ysgol gyfan. Yn benodol, caiff llefaredd ac ysgrifennu eu datblygu’n dda fel medrau sy’n cefnogi dysgu mewn celf a dylunio, cerddoriaeth a drama.

127 Mae nifer bach iawn o gynlluniau gwaith yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau rhifedd mewn ffyrdd ymarferol, er enghraifft graddfeydd a mesuriadau wrth ddylunio setiau i’r theatr. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn talu sylw digon da i ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion yn y celfyddydau. Mynegodd nifer bach iawn o benaethiaid adran y farn bod cynnwys rhifedd mewn gwersi celf yn amhriodol.

**Ysgol Bishopston yn gwella rhifedd disgyblion trwy gelf a dylunio**

**Cyd-destun**

Mae Bishopston yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg, 11 i 16 oed, sydd wedi’i lleoli yng ngorllewin Abertawe. Mae 1,087 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n is o lawer na’r cyfartaledd cenedlaethol. Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw 22%, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae canran y disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig (4%) yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 3%.

**Strategaeth**

Aeth yr adran gelf yn Ysgol Bishopston ati i ddatblygu’r defnydd ar fedrau rhifedd a chymhwyso rhif yng nghyd-destun celf a dylunio ym myd gwaith. Mae’r staff yn defnyddio’u profiad fel ‘artistiaid wrth eu gwaith’ i wella dealltwriaeth disgyblion o agweddau fel prisio deunyddiau, comisiwn gan orielau a threth ar werth. Yn unol â llinyn rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sef ‘trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd’, y nod yw i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifyddeg mewn cyd-destun ‘go iawn’ a, thrwy wneud hynny, llunio cynllun gwaith sy’n ehangu’r cwricwlwm celf a dylunio.

**Gweithredu**

Lluniodd yr adran gynllun gwaith sy’n ystyried sut mae artistiaid proffesiynol yn gweithio. Caiff disgyblion gyfle i weithio megis artistiaid proffesiynol, gan sefydlu ac adeiladu busnes gyda phartner. Mae cynllunio busnes, gyda phwyslais ar fedrau rhifedd, yn nodwedd allweddol o’r cynllun gwaith. Rhoddir y medrau a’r adnoddau i ddisgyblion gynllunio a chyflawni ymgyrch farchnata ar gyfer eu dyluniadau gemwaith neu ategolion eu hunain, gan gynnwys cynhyrchu logo a hysbyseb wedi’i sgriptio. Penllanw’r cynllun gwaith yw gweld disgyblion yn cyflwyno’u cynlluniau busnes, eu strategaethau marchnata a’r prototeipiau a wnaed â llaw ganddynt mewn cyflwyniad yn arddull ‘Dragons Den’. Bydd staff yn dewis detholiad o gynlluniau busnes a bydd disgyblion yn gweithio gydag athro mewn grwpiau bach i wireddu eu dyluniadau gan ddefnyddio clai metelau gwerthfawr (arian ac efydd).

**Effaith**

Mae ansawdd y gwaith a gynhyrchir wedi galluogi canlyniadau rhagorol yng nghyfnod allweddol 3, gyda 31% o ddisgyblion yn ennill lefel 7 mewn celf yn 2015. Defnyddiodd yr adran arolwg llais y disgybl i arfarnu amgyffredion disgyblion ynghylch y prosiect a darganfu fod disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r uned waith newydd hon, sy'n arbennig o boblogaidd ymhlith bechgyn. Mae adborth un disgybl yn crisialu'r diddordeb hwn:
*"Mae'n llawer o hwyl ac yn ddifyr, ymchwilio i logos a brandiau cyn gwneud ein gwaith ein hun. Mae fel celf 'go iawn'."*

**Dysgu digidol**

128 Mae llawer o adrannau celf da yn cynllunio'n dda iawn i ddatblygu cymhwysedd digidol disgyblion. Cynigiant amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau sy'n benodol i bwnc a medrau digidol cyffredinol, fel medrau ymchwilio a chyflwyno effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda i gael ysgogiadau ar gyfer eu cynhyrchion creadigol ac i recordio'r gwaith sydd ar droed ganddynt at ddibenion hunanarfarnu ac arfarnu gan gymheiriaid. Mewn cerddoriaeth, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn gwneud defnydd da ar dechnolegau, er enghraifft trwy berfformio gan ddefnyddio allweddellau electronig a chyfansoddi gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd. Fodd bynnag, hyd yn oed lle y gwelir arfer dda, mewn lleiafrif o ysgolion a chynlluniau gwaith mewn celf a dylunio a drama, nid yw arweinwyr pwnc yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion archwilio sut caiff gwaith celf ei gynhyrchu trwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

129 Mae gan lawer o'r adrannau celf cryfach dechnegydd dynodedig sy'n gofalu am yr agweddau technegol ar waith yr adran. Mae'r technegwyr hyn yn aml yn gweithio fel goruchwylwyr cyflenwi yn y pwnc ac yn cyfrannu at addysgu medrau arbenigol fel technoleg cerddoriaeth neu ffotograffiaeth ddigidol. Mae'r staff cymorth hyn yn hollbwysig i'r llwyddiant yn yr adrannau hyn.

**Y Cwricwlwm Cymreig**

130 Mae bron pob un o'r adrannau ag arfer dda yn cyfrannu'n sylweddol at y Cwricwlwm Cymreig. Mae cynlluniau gwaith yn defnyddio enghreifftiau dethol o ymarferwyr o Gymru, yn hanesyddol ac yn gyfoes, fel mannau cychwyn ar gyfer gwaith creadigol. Rhoddir llawer o gyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am hanes, tirwedd, diwylliant ac iaith Cymru.

131 Mae llawer o'r ysgolion hyn yn hyrwyddo'r celfyddydau'n dda fel rhan annatod o ddiwylliant Cymru. Cynhaliant Eisteddfod flynyddol sy'n cynnwys cystadlaethau ar gyfer yr holl gelfyddydau, ac mae'n cynnwys darnau gosod modern a phoblogaidd sy'n briodol ac yn ddiddorol i ddisgyblion.

132 Mewn ychydig ysgolion, mae disgyblion yn arbennig o falch o'u llwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae cymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol a'r Eisteddfod genedlaethol yn hybu nid yn unig y Cwricwlwm Cymreig yn dda, ond hefyd werth y celfyddydau yn yr ysgolion hyn.

**Dewisiadau opsiwn**

133 Mewn bron pob un o'r ysgolion ag arfer dda, dywedodd disgyblion eu bod yn cael cyngor ac arweiniad da gan eu hathrawon am eu dewisiadau opsiwn. Ychydig bach iawn o ddisgyblion oedd yn teimlo dan bwysau i ddewis pynciau heblaw am bynciau celf oherwydd amgyffrediad o ddiffyg trylwyredd academaidd, neu oherwydd nad oedd pynciau'r celfyddydau o werth i'w dyfodol mewn addysg neu waith.

134 Mewn llawer o'r ysgolion hyn ag arfer dda, gall disgyblion ddewis sefyll TGAU mewn dau o bynciau'r celfyddydau. Mewn rhai ysgolion, gall disgyblion ddewis tri phwnc celf. Fodd bynnag, mewn nifer bach iawn o ysgolion, gall disgyblion ddewis un pwnc celf yn unig ar lefel TGAU. Yn yr ysgolion hyn, roedd y dewisiadau opsiwn yn rhy gyfyngol ym marn y disgyblion.

135 Yng nghyfnod allweddol 4, mae adrannau celf llwyddiannus yn cynllunio profiadau dysgu sy'n llywio disgyblion yn fedrus tuag at eu cymwysterau. Mae athrawon yn yr adrannau hyn yn deall meini prawf yr arholiadau yn dda ac yn eu cyfleu'n glir i'w disgyblion. Er mwyn galluogi disgyblion i gyflawni'r graddau uchaf, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymestyn a mireinio'u medrau, ac yn galluogi disgyblion i greu darnau mwy personol a gwreiddiol hefyd.

**Ysgol Bishopston yn gwella ymgysylltiad â rhieni, sy'n helpu i wella cyflawniad disgyblion**

**Strategaeth**

Nod yr adran gelf a dylunio yw gwella ymgysylltiad rhieni er mwyn gwella dealltwriaeth rhieni o ofynion ac asesu TGAU, fel y gallant gefnogi eu plant yn well i wella'u graddau.

**Gweithredu**

Yn nhymor yr hydref, mae'r adran gelf yn gwahodd rhieni i'r ysgol i edrych ar bortffolios TGAU celf a dylunio carfan y flwyddyn flaenorol. Mae athrawon celf a dylunio yn esbonio sut cafodd y gwaith ei asesu, gan ddatgelu sut a pham yr enillodd y disgyblion y marciau er mwyn ennill gwahanol raddau. Caiff rhieni, ochr yn ochr â'u plant, gyfle i asesu gwaith celf gan ddefnyddio matrics asesu'r bwrdd arholi.

Fel rhan o nosweithiau ymgynghori â rhieni ynghylch TGAU, mae'r adran gelf hefyd yn rhoi graff olrhain i rieni, sy'n dangos perfformiad presennol pob disgybl a ph'un a yw'r disgybl ar y trywydd cywir ar gyfer cyflawni ei radd darged.

I gefnogi rhieni a disgyblion ymhellach, mae'r adran wedi llunio llawlyfr TGAU celf a dylunio. Mae'r llawlyfr yn cynnwys ffotograffau o waith disgyblion, cyngor ar yr arholiad ymarferol ac esboniadau manwl o feini prawf a chynllun marcio'r cymhwyster TGAU.

**Effaith**

Mae’r ysgol yn gofyn i rieni arfarnu’r digwyddiad. Dywedodd rhieni fod y wybodaeth yn peri i broses a meini prawf llwyddiant TGAU fod yn llawer cliriach. Yn ogystal, mae adborth gan rieni a disgyblion wedi helpu’r adran gelf i ddatblygu’r cwricwlwm ac adnoddau ymhellach.

Mae perfformiad disgyblion wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, enillodd 98% o ddisgyblion radd A*-C mewn celf a dylunio, gydag ychydig dros 62% yn cyflawni gradd A*-A.

136 Ar ddechrau cyrsiau cyfnod allweddol 4, mae llawer o athrawon celf yn cynnal gweithgarwch diagnostig sy’n nodi cryfderau a diffygion disgyblion. Mae hyn yn helpu athrawon i lywio disgyblion trwy eu hastudiaethau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ffordd sy’n gwneud y mwyaf o allu’r disgyblion. Yn ogystal, mae’r diagnosis yn rhoi gwybod i athrawon am y meysydd lle y gallai techneg arholi fod yn her i’r disgyblion, er enghraifft pan fydd medrau ysgrifennu gwannach disgyblion yn ei gwneud hi’n anodd ennill marciau mewn papurau ysgrifenedig. Yn hyn o beth, mae ffocws ychwanegol ar ddysgu’r eirfa gywir a strwythuro atebion ysgrifenedig i gyfrif yn dda am y cynllun marcio yn helpu i gynorthwyo disgyblion i gyflawni eu gorau.

137 Mewn celf a dylunio, mae llawer o adrannau llwyddiannus yn cynnig amrywiaeth o opsiynau TGAU, gan gynnwys celf gain, cyfathrebu graffig, tecstilau, astudiaethau tri dimensiwn a ffotograffiaeth. Mae hyn yn caniatáu i athrawon gyfeirio disgyblion at y cymhwyster mwyaf addas i’r disgybl ac yn cyfrannu at ddeilliannau gwell. Mewn adrannau llai, fodd bynnag, mae’n fwy anodd cynnig amrywiaeth eang o opsiynau. Mae llawer o adrannau wedi cyflwyno dylunio graffeg neu ffotograffiaeth i ddenu cyfran uwch o fechgyn at y pwnc ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella cyflawniad bechgyn.

138 Yn aml, mae drama yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnig opsiynau i ddisgyblion actio, cyfarwyddo neu arddangos eu medrau technegol. Yn yr ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni’n dda mewn drama, mae athrawon yn talu sylw da i’r amrywiaeth hwn o ddewisiadau ac yn helpu disgyblion i ddod o hyd i’r llwybr mwyaf priodol drwy’r pwnc. Mae ychydig o’r ysgolion hyn wedi dylunio’u cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 i gyfrif am yr opsiynau gwahanol hyn yng nghyfnod allweddol 4, ac mae hyn wedi ennyn diddordeb amrywiaeth o ddisgyblion mewn medrau a dyheadau gwahanol yn y pwnc.

139 Mewn ychydig ysgolion lle ceir darpariaeth TGCh dda, gall disgyblion ddewis astudio BTEC mewn technoleg cerddoriaeth. Mae nifer bach iawn o ysgolion yn cynnig technoleg cerddoriaeth a chymwysterau cerddoriaeth mwy traddodiadol, fel TGAU. Yn aml, mae athrawon yn sylwi bod y cymhwyster technoleg cerddoriaeth yn fwy addas i ddisgyblion â medrau da ym maes technolegau addasu, ynghyd â gallu clywedol da, ond nid oes ganddynt gymaint o hyder na medr mewn gwerthuso neu chwarae offeryn. Pan fydd ysgolion yn arwain disgyblion yn addas wrth wneud eu dewisiadau, mae disgyblion yn aml yn ennill canlyniadau da iawn.

**Cyfleoedd allgyrsiol**

140 Mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, ceir cyfleoedd ymestyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn ymwneud â'r celfyddydau. Mae bron pob un o'r adrannau da yn darparu nifer o glybiau i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celf yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol. Mae nifer dda o ddisgyblion yn mynychu'r clybiau hyn ac yn eu mwynhau.

141 Mewn rhai achosion, mae clybiau celf yn rhoi cyfle i ddysgu medr newydd, er enghraifft 'clwb samba' a 'chlwb animeiddio'. Caiff y rhain eu trefnu'n dda ac maent yn aml yn arwain at gyfleoedd i ddisgyblion berfformio neu arddangos eu gwaith.

142 Mae llawer o glybiau celfyddydau creadigol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio ardaloedd ac offer arbenigol, a manteisio ar arbenigedd athrawon i gwblhau gwaith dosbarth a gwaith cartref. Mae'r cyfleoedd hyn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, nad oes ganddynt o reidrwydd y manteision gartref sydd gan eu cymheiriaid mwy breintiedig. I lawer o ddisgyblion, mae'r clybiau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu cyflawniad yn y celfyddydau, hyd yn oed pan na fydd llawer o weithgareddau strwythuredig wedi'u darparu gan athrawon. Yn wir, yn aml, mae'r clybiau hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion weithio'n annibynnol, er enghraifft er mwyn dilyn eu diddordebau eu hunain mewn agweddau ar ddiwylliant poblogaidd.

143 Mewn ysgolion ag arfer dda yn yr adran gerddoriaeth, mae cyfran uchel o ddisgyblion (hyd at 20%) yn cael gwersi offerynnau cerdd ychwanegol. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am yr ystod o wersi offerynnau cerdd sydd ar gael iddynt ac arbenigedd yr athrawon hyn. Fodd bynnag, mae cost gwersi offerynnau yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Mae bron pob ysgol yn sôn am dyndra rhwng gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cerdd yr awdurdod lleol, sy'n cynnig darpariaeth o ansawdd da ac sydd wedi'u rheoli'n dda ond sydd yn gostus, a phrynu darpariaeth ratach y mae arweinwyr yr ysgol yn ei rheoli ac yn sicrhau ei hansawdd.

144 Dim ond ychydig ddisgyblion sy'n defnyddio'u Grant Amddifadedd Disgyblion i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd i ddysgu chwarae offerynnau. Mae gan leiafrif o ysgolion eu cymynroddion a'u cronfeydd bwrsari eu hunain, a ddefnyddiant i gefnogi disgyblion o deuluoedd na allant fforddio cost gwersi offerynnau cerdd ychwanegol. Mae lleiafrif yn defnyddio arian o berfformiadau i gyfrannu at gost y gwersi ychwanegol hyn ar gyfer disgyblion.

**Addysgu**

145 Mewn bron pob un o'r ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, nid yn unig y mae athrawon yn meddu ar wybodaeth ragorol am eu pwnc, ond mae llawer ohonynt yn ymarferwyr ac yn gyfranogwyr gweithgar yn y celfyddydau. Mae llawer yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth bresennol o'r ffordd y mae artistiaid yn gweithio yn ddychmygus yn eu haddysgu. Maent yn creu ystafelloedd dosbarth sy'n ofod 'stiwdio' bywiog a chreadigol. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn eu hystyried eu hunain yn artistiaid, cerddorion, actorion, cyfarwyddwyr a thechnegwyr. Mae athrawon yn cynnal agwedd ddifrifol tuag at y trylwyredd a'r ddisgyblaeth sy'n rhan annatod o waith yn y celfyddydau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar agweddau, hyder a deilliannau disgyblion.

146 Mae llawer o athrawon yn yr ysgolion ag arfer dda yn modelu medrau i ddisgyblion yn hyfedr. Maent yn arddangos yn hyderus, gyda rheolaeth ragorol ar y prosesau a'r technegau y maent yn eu hesbonio, ac yn canolbwyntio ar ddulliau cam wrth cam lle y bo'n briodol i sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r technegau y bydd angen iddynt eu defnyddio.

147 Mae'r athrawon hyn yn deall yn dda bod deilliannau disgyblion yn y celfyddydau yn 'gyhoeddus' a bod disgyblion yn aml yn teimlo bod eu hymatebion yn cael eu datgelu i bawb. Mae'r athrawon hyn yn creu awyrgylch o ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd, lle y mae disgyblion yn teimlo'r rhyddid i arbrofi a gwneud camgymeriadau. Mae athrawon yn rhoi adborth ffurfiannol cyson i ddisgyblion sy'n canolbwyntio ar feini prawf llwyddiant clir. Rhannant anawsterau a llwyddiannau disgyblion, ac maent yn cyfeirio disgyblion yn fedrus i'w helpu ei gilydd i wella.

148 Yn bwysicaf oll, mae athrawon yn cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn llwyddo. Hynny yw, mae'r wers yn cael ei strwythuro'n ofalus fel bod disgyblion yn datblygu'u medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffordd ddilyniannol sy'n cynnig fframwaith ar gyfer llwyddiant, heb gyfarwyddo'n ormodol.

149 Mae llawer o athrawon da a rhagorol yn y celfyddydau yn cynllunio'u gwersi'n ddyfeisgar. Defnyddiant ysgogiadau, cerddoriaeth a goleuadau cyffrous, amlsynhwyraidd, sy'n gosod yr olygfa ar gyfer dysgu ac yn dal dychymyg disgyblion.

150 Mewn nifer bach iawn o achosion, nid yw athrawon yn talu sylw digon da i adnoddau ac offer, a chaiff hyn effaith negyddol ar ansawdd gwaith disgyblion. Er enghraifft, gofynnir i ddisgyblion weithio wrth ddesgiau pan fyddai defnyddio man agored yn fwy priodol, neu caiff deunyddiau ac offer anaddas neu o safon wael eu dewis i ddisgyblion eu defnyddio.

151 Yn y rhan fwyaf o ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae athrawon yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion. Rhoddant fframweithiau addas i ddisgyblion i'w helpu i ddadansoddi ystod ddiddorol o waith ymarferwyr, a ddewiswyd yn dda ac sydd, yn eu tro, yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i arfarnu eu gwaith eu hunain. Helpant ddisgyblion i ddeall pam roedd ymarferwyr wedi creu darnau o waith ar adegau ac mewn lleoedd gwahanol, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae athrawon yn helpu disgyblion i ddefnyddio gwaith celf pobl eraill i archwilio pwyntiau cychwyn ar gyfer eu gwaith eu hunain, i'w helpu i ddatrys problemau trwy archwilio sut mae eraill wedi ymateb i heriau tebyg, ac ennill dealltwriaeth o brosesau creadigol.

152 Mewn adrannau effeithiol, mae athrawon yn galluogi disgyblion i ehangu eu geirfa ac yn darparu fframweithiau priodol sy'n helpu disgyblion i lunio ymatebion estynedig ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**Ysgol Basaleg yn integreiddio llythrennedd yn effeithiol i wers gerddoriaeth Blwyddyn 9**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Basaleg yn ysgol 11-18 oed gymysg i'r gogledd-ddwyrain o Gasnewydd. Mae 1,688 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan lai o ddisgyblion na'r cyfartaledd cenedlaethol anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth**

Mae'r adran gerddoriaeth wedi dyfeisio methodoleg ar gyfer datblygu medrau gwrando a gwerthuso disgyblion trwy gymhwyso medrau llythrennedd ffocysedig. Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 9 yn cael dwy wers gerddoriaeth fesul pythefnos. Mae cydlynydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn yr ysgol yn aelod o'r adran gerddoriaeth hefyd.

**Gweithredu**

Mewn dosbarth gallu cymysg ym Mlwyddyn 9, canolbwyntiodd y wers gerddoriaeth ar wella medrau gwerthuso disgyblion, yna gwreiddio'u dealltwriaeth o'u gwrando drwy ymarfer eu perfformiad unigol.

Fe wnaeth yr athro hoelio sylw'r holl ddisgyblion o'r cychwyn gyda recordiad bywiog o'r felangan deuddeg bar 'Candy Man'. Defnyddiodd disgyblion fyrddau gwyn i gofnodi pwyntiau bwled er mwyn arfarnu'r gerddoriaeth. Casglodd yr athro eu barn at ei gilydd ac ymestyn eu geirfa i gynnwys 'geiriau grymus', a oedd yn cynnwys termau technegol yn seiliedig ar yr ysgogiadau penodol i bwnc o amgylch yr ystafell ddosbarth a geirfa gerddorol Eidalaidd i'r disgyblion mwy abl. O chwarae'r darn yr eilwaith, fe wnaeth y disgyblion droi eu pwyntiau bwled yn frawddegau. Defnyddiodd yr athro holi targedig yn fedrus i alluogi pob disgybl yn y dosbarth gallu cymysg hwn i ddefnyddio cysyllteiriau ac atalnodi addas i strwythuro'u brawddegau yn briodol. Fe wnaeth llawer o ddisgyblion fodelu ymatebion lefel 7 yn dda, wedi'u hategu gan feini prawf llwyddiant strwythuredig. Darllenodd dysgwyr eu brawddegau 'grymus' ar goedd a chynnig adborth i'w gilydd. Roedd y dechrau byr hwn i'r wers yn fywiog, yn briodol o gyflym ac yn hoelio sylw pob dysgwr yn dda. Roedd yn arddangos yn benodol y cyfraniad cadarnhaol y gall pob athro ei wneud at ddatblygu, ymarfer ac atgyfnerthu medrau llythrennedd disgyblion yn bwrpasol, o fewn cyd-destun eu meysydd pwnc eu hunain.

Fe wnaeth y wers barhau gyda disgyblion yn ymarfer eu perfformiadau eu hunain o felangan deuddeg bar. Ychwanegodd llawer o ddisgyblion gordiau priodol dros fas araf, gan weithio'n ofalus i newid cordiau'n llyfn gan ddefnyddio patrymau byseddu wedi'u hymarfer yn dda. Gwnaeth disgyblion mwy abl ddefnydd da o'r rhythmau trawsacennog yr oeddent wedi'u clywed a'u harfarnu yn ystod yr ymarfer gwerthuso cychwynnol. Roedd ychydig ddisgyblion sydd eisoes â meistrolaeth sylfaenol ar yr allweddellau wedi defnyddio'u hysgogiad gwrando cychwynnol i ddyfeisio addurniadau ychwanegol ar fyrfyfyr ar gyfer y strwythur a chyfansoddi ffanffer rhagarweiniol syml. Fe wnaeth yr athro gynorthwyo ychydig ddisgyblion llai abl i

berfformio'n gymwys ar lefel sylfaenol gan ddefnyddio marciau lliw ac allweddi wedi'u rhifo i'w cynorthwyo. Rhoddodd yr holl ddisgyblion ystyriaeth dda i'r meini prawf llwyddiant clir a strwythuredig i'w helpu i wneud gwelliannau i'w gwaith a cheisio cyflawni eu huchelgais.

**Effaith**

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwerthuso'r gerddoriaeth y gwrandawont arni'n sensitif ac yn feddylgar, gan ddefnyddio geirfa benodol i bwnc, wedi'i dewis yn dda, a chysylltu brawddegau'n feddylgar i lunio paragraff wedi'i strwythuro'n ofalus. O ganlyniad, mae medrau gwerthuso llawer o ddisgyblion ar lefel 6 ac mae ychydig ar lefel 7. Mae'r meini prawf llwyddiant ar gyfer perfformio, sydd wedi'u strwythuro'n ofalus, yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ynghylch gwella'u gwaith yn unigol ac maent yn cymell bron pob un o'r disgyblion i gyflawni eu gorau. O ganlyniad, gwnaeth bron pob un o'r disgyblion gynnydd da yn ystod y wers.

Mae disgyblion yn Ysgol Basaleg yn cyflawni'n dda iawn mewn cerddoriaeth. Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, fe wnaeth tua hanner y disgyblion gyflawni lefel 6 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth bron pob un o'r disgyblion gyflawni gradd A*-C yn eu TGAU, gydag oddeutu hanner yn ennill gradd A*-A.

153 Hyd yn oed mewn adrannau da, mae llawer o athrawon yn colli cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau rhifedd, yn enwedig pan y gallai disgyblion ymarfer defnyddio rhifyddeg pen. Ar y cyfan, nid oes gan athrawon ddealltwriaeth ddigon da o ymagweddau ysgol gyfan at fedrau rhifedd a'r medrau y mae ar ddisgyblion eu hangen i ddatrys problemau, er enghraifft i gyfrifo siâp a gofod, neu i ddeall sut i gyfrifo ffracsiynau mewn nodiant cerddorol.

154 Mae llawer o athrawon mewn adrannau da yn defnyddio technoleg yn dda fel adnodd addysgu a dysgu. Defnyddiant amrywiaeth o raglenni a meddalwedd at ystod eang o ddibenion.

**Ysgol Gyfun Tredegar yn defnyddio TGCh i ehangu dysgu mewn celf a dylunio**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gyfun Tredegar yn ysgol 11-16 oed ym Mlaenau Gwent. Mae llawer o'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd ac mae lefel uchel iawn o ddiweithdra yn yr ardal. Mae 671 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae bron 29% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anghenion addysgol arbennig gan oddeutu 30% o ddisgyblion, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn technoleg i ategu dysgu mewn pynciau creadigol ac i ennyn diddordeb y disgyblion. Mewn celf a dylunio yn y ddau gyfnod

allweddol, caiff technoleg ei defnyddio i ategu a gwella gwaith disgyblion ac i ymestyn eu defnydd ar gyfryngau newydd trwy addasu eu gwaith gan ddefnyddio TGCh. Mae hyn hefyd yn ategu datblygiad dysgu annibynnol, medrau ymchwil a ‘dysgu o chwith’ (strategaeth ddysgu lle bydd disgyblion yn ennill gwybodaeth gartref yn y lle cyntaf ac yna caiff amser dosbarth ei ddefnyddio i atgyfnerthu ac archwilio’r dysgu hwn, fel arfer trwy drafodaeth a gweithgareddau datrys problemau).

**Gweithredu**

Mae athrawon celf a dylunio yn defnyddio amrywiaeth o gymwysiadau i alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth.

Gall disgyblion gael at amrywiaeth eang o adnoddau ac ymchwil yn electronig, a defnyddir ‘apiau’ amrywiol i alluogi disgyblion i ymestyn ac addasu eu gwaith. Mae’r adran yn defnyddio llechi electronig yn rheolaidd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 er mwyn datblygu a chofnodi’r gwaith sydd ar droed.

Mae athrawon yn hyrwyddo ac yn argymell meysydd penodol i ddisgyblion trwy wefan benodol ar gyfer rhannu ffotograffau, sy’n galluogi defnyddwyr i lanlwytho, cadw a didoli delweddau a fideos. Mae’r defnydd ar y wefan wedi bod yn cael ei ddatblygu yn yr adran dros y tair blynedd diwethaf. Mae’n ap rhad ac am ddim y gellir mynd ato drwy amrywiaeth o lwyfannau. Mae’r wefan yn caniatáu i ddefnyddwyr lanlwytho, cadw, didoli a chadw trefn ar ddelweddau a fideos, sy’n cael eu galw’n ‘binnau’ mewn casgliadau o’r enw ‘pinfyrddau’. Mae disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn creu llawer o binfyrddau yn seiliedig ar nifer o themâu gwahanol y maent yn eu hastudio. Ar lefel TGAU, mae disgyblion yn creu bwrdd ar gyfer pob cwestiwn arholiad fel y gallant binio’r delweddau a’r artistiaid yr hoffent ymchwilio iddynt. Mae hyn yn rhoi sylfaen ehangach i ddisgyblion ymchwilio a pharatoi eu gwaith ar amrywiol artistiaid a thechnegau cyn ac yn ystod y wers, a gall athrawon argymell artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr eraill i’w harchwilio. Trwy ddefnyddio’r wefan, gall disgyblion fynd at adnoddau gartref a gall yr holl ddisgyblion archwilio’u trywyddau ymholi unigol eu hunain. Mae hyn yn galluogi disgyblion o bob gallu i weithio’n annibynnol.

Caiff ap arall ei ddefnyddio gan ddisgyblion i dynnu ffotograffau o’u gwaith ac i ychwanegu sylwadau, naill ai drwy deipio neu recordio’u bwriadau ar lafar. Fe’i defnyddir ar ddechrau gwersi er mwyn i ddisgyblion osod eu targedau eu hunain ar gyfer y wers neu i ebsonio sut maent yn bwriadu parhau i ddatblygu eu gwaith. Yna, defnyddir yr ap ar ddiwedd y wers i wneud delwedd neu fideo arall fel y gall disgyblion gofnodi eu cynnydd a dangos sut y gwnaethant wella’u dysgu eu hunain. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion a’r athro asesu’r gwaith sydd ar droed gan y disgyblion yn fwy llwyddiannus. Yn ogystal, mae disgyblion yn datblygu’u medrau llythrennedd wrth ddisgrifio cynnydd yn eu gwaith. Mae’r dechnoleg hefyd yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ac athrawon rannu gwaith, ac i athrawon gasglu cronfa o dystiolaeth a deunyddiau enghreifftiol.

**Effaith**

Am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn celf a dylunio yng nghyfnod allweddol 3 wedi gosod yr ysgol ymhlith y chwarter uchaf o ysgolion tebyg

ar sail trothwyon prydau ysgol am ddim ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5, ac ar y lefelau uwch. Yng nghyfnod allweddol 4, celf yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd ar lefel TGAU, gyda thros hanner y garfan yn dewis celf a dylunio bob blwyddyn. Yn 2015, cyflawnodd 84% o ddisgyblion radd A*-C, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 77%.

**Athrawon cerddoriaeth yn Ysgol Gyfun Tredegar yn defnyddio technoleg yn effeithiol yn sylfaen ar gyfer dysgu**

**Strategaeth**

Ar draws yr ystod oedran a gallu, mae technoleg mewn cerddoriaeth yn ategu gwahaniaethu a modelu medrau newydd yn dda. Caiff ei defnyddio'n greadigol i gefnogi disgyblion mwy abl, trwy annog creadigrwydd ac annibyniaeth. Yn ogystal, mae disgyblion llai abl yn cael eu cynorthwyo trwy allu cael at fodelu 'ar gais'. Mae'r adran gerddoriaeth yn defnyddio technoleg yn helaeth i hybu dysgu annibynnol a'r gallu i gael at adnoddau pan fydd y disgyblion gartref.

**Gweithredu**

Mae disgyblion yn defnyddio codau QR i gael at adnoddau ehangach 'ar gais' i ategu eu dysgu ac i lunio cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Mae'r dechnoleg yn helpu disgyblion i gyfansoddi ac asesu, ychwanegu nodiadau at eu gwaith a chyfeirio. Mae codau QR yn ymddangos ar gardiau ysgogi ac o amgylch y dosbarth, sy'n cysylltu â thiwtorialau hunangymorth ar YouTube, wedi'u recordio gan yr athro. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarwyddiadau i chwarae rhan harmoni mwy cymhleth neu ddarparu gweithgareddau gwrando, fel mynediad at gyfansoddiad neu berfformiad blaenorol gan Flwyddyn 11.

Caiff codau QR eu defnyddio'n helaeth i gynorthwyo â modelu ac i wahaniaethu ar gyfer unigolion trwy annog gwaith annibynnol. Mae llechi gan ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion i sganio codau QR a gwylio fideos.

Mae'r athro'n cynhyrchu taflenni adnoddau cerddorol ar gyfer pob uned, sy'n amlinellu meini prawf llwyddiant ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella perfformiadau neu gyfansoddiadau. Mae codau QR ar y taflenni adnoddau hyn yn caniatáu i ddisgyblion wylio fideos o berfformiadau o bob rhan, wedi'u recordio gan athrawon pwnc. Mae'r fideos hyn yn caniatáu am wahaniaethu ac maent yn hybu dysgu annibynnol. Mae disgyblion yn gallu ymarfer rhannu a gwella'u perfformiad, beth bynnag fo'u gallu. Mae bwrdd arddangos TGAU rhyngweithiol sydd â chodau QR sy'n galluogi disgyblion i fynd at enghreifftiau o waith a gafodd raddau A*, A a B. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion darllen enghreifftiau o friffiau cyfansoddi a gwrando ar yr un pryd ar waith wedi'i fodelu gan gyn-ddisgyblion TGAU a disgyblion sy'n astudio TGAU ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ddisgyblion o'r meini prawf marcio ar gyfer perfformiadau unawdau TGAU.

**Effaith**

Am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn cerddoriaeth yng

nghyfnod allweddol 3 wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail y trothwyon prydau ysgol am ddim ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5, a'r lefelau uwch. Yng nghyfnod allweddol 4, mewn cerddoriaeth, cyflawnodd 100% o ddisgyblion radd A*-C, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 82%.

155 Mewn llawer o ysgolion lle y mae disgyblion yn llwyddo yn y celfyddydau, mae athrawon yn datblygu adnoddau o ansawdd uchel i ategu dysgu disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn cynhyrchu adnoddau ar-lein defnyddiol i ddisgyblion, i ategu eu gwaith annibynnol. Mae ychydig athrawon yn defnyddio gwefannau rhannu neu fewnrwyd yr ysgol i greu adnoddau ar-lein i ddisgyblion. Yn Ysgol Cwmtawe, er enghraift, mae'r pennaeth celf yn defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir yr ysgol i esbonio'r meini prawf asesu ar gyfer gwaith cartref yn glir, trwy ddefnyddio gwaith enghreifftiol i ddangos y safonau disgwyliedig i ddisgyblion.

156 Mae bron pob un o'r athrawon da a rhagorol yn y celfyddydau yn rhoi adborth llafar cyson i ddisgyblion trwy gydol gwersi, sy'n eu helpu i ddwysáu eu dealltwriaeth a mireinio'r gwaith sydd ar droed ganddynt. Rhoddant esboniad clir o'r ffordd y mae meini prawf asesu'n cael eu cymhwyso a chynnig gweithgareddau i ddisgyblion sy'n rhoi enghreifftiau o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella, er enghraifft trwy lefelu neu raddio enghreifftiau o waith eu hunain. Mae'r athrawon hyn yn rhoi llawer o gyfleoedd cefnogol, amserol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid.

157 Mae athrawon mewn adrannau ag arfer dda yn olrhain gwaith disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i gyflawni eu gorau. Defnyddiant wybodaeth asesu i addasu cynllunio gwersi.

158 Mae mwyafrif o athrawon hefyd yn defnyddio gwybodaeth asesu i addasu eu gwersi i fodlon anghenion disgyblion. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn adrannau da, nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau penodol a fydd yn ymestyn cynnydd disgyblion mwy abl.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion ag arfer orau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn

### Uwch arweinyddiaeth

159 Ym mhob ysgol lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau creadigol, mae uwch arweinwyr yn rhoi statws uchel i'r celfyddydau. Maent yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau wrth ddatblygu ethos cryf yn yr ysgol a'u gwerth o ran hybu amgylchedd dysgu creadigol ac ysgogol i bob dysgwr.

160 Yn yr ysgolion effeithiol hyn, mae uwch arweinwyr yn ystyried bod perfformiad cadarn yn y celfyddydau yn rhan o hunaniaeth yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gryf mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle y mae'r celfyddydau'n cael eu hystyried yn rhan annatod o ddiwylliant yr ysgol.

161 Mae'r ysgolion effeithiol hyn yn rhoi digon o gyfleoedd i ddathlu cyflawniadau disgyblion yn y celfyddydau. Mae uwch arweinwyr yn rhoi cymorth gwerthfawr i athrawon y celfyddydau gyflwyno cynyrchiadau ac arddangos gwaith disgyblion yn rheolaidd, yn yr ysgol ac yn y gymuned. Sicrhânt fod celf, drama a cherddoriaeth o safon uchel yn nodwedd gyson o fywyd yr ysgol, er enghraifft mewn gwasanaethau ac mewn digwyddiadau i rieni.

162 Mae uwch arweinwyr yn deall yn dda bod y celfyddydau'n gallu helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau cymdeithasol ac emosiynol y mae arnynt eu hangen i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn yr ysgol. Mynegant yr argyhoeddiad fod y medrau a gaiff disgyblion drwy'r celfyddydau yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer llwyddo mewn agweddau eraill ar eu dysgu.

163 Mewn ysgolion lle y mae'r celfyddydau yn ffynnu, mae uwch arweinwyr yn pwysleisio gwerth celf i bob disgybl. Mae cymorth da ar gyfer rhaglenni celfyddydau sy'n helpu disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio ac mae cyllid ar gael i gynorthwyo grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion mwy abl a thalentog, i wneud y cynnydd gorau y gallant. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ychydig o'r ysgolion ag arfer dda, ni chaiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'n well yn y celfyddydau. Mewn ambell achos, mae hyn yn golygu bod disgyblion dan anfantais yn wynebu rhwystr rhag ymhél â'r celfyddydau. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion, cyfran fechan iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd sy'n dysgu offeryn cerdd, o gymharu â'u cymheiriaid.

164 Mae uwch arweinwyr mewn ysgolion ag arfer dda o'r farn bod gan y celfyddydau'r un trylwyredd academaidd â phynciau eraill. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agwedd yr ysgol at y cwricwlwm, gosod targedau, olrhain ac asesu.

165 Mewn llawer o ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod digon o amser yn y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru, dywedodd Smith (2013) mai un o brif ganfyddiadau'r

ymgynghoriad oedd cred fod penaethiaid yn blaenoriaethu datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draul y celfyddydau (t.36). Mewn llawer o ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau, mae uwch arweinwyr wedi diogelu'r amser, neu, mewn ychydig achosion, wedi cynyddu'r amser a roddir i'r celfyddydau yng nghyfnod allweddol 3. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr nid yn unig yn rhoi pwys ar y celfyddydau er mwyn y celfyddydau ond maent o'r farn hefyd fod astudio pynciau'r celfyddydau yn gwella deilliannau cymdeithasol, addysgol ac economaidd disgyblion.

166 Mae uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn ag arfer dda yn cydnabod bod eu hadrannau celf yn aml yn ffynhonnell arfer ragorol o ran datblygu creadigrwydd a medrau meddwl disgyblion. Maent yn nodi a rhannu'r dulliau addysgu hyn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i wella arfer a deilliannau. Er enghraifft, mewn ychydig ysgolion, mae uwch arweinwyr wedi hwyluso'r defnydd ar strategaethau addysgu drama mewn meysydd pwnc fel hanes ac addysg grefyddol, i wella medrau disgyblion yn gysylltiedig â chysyniadau achos a chanlyniad, neu i'w helpu i fyfyrio ar deimladau, agweddau, credoau a gwerthoedd. Dim ond mewn ychydig ysgolion y mae uwch arweinwyr yn dechrau archwilio'n strwythuredig sut caiff dysgu creadigol ei ddatblygu ar draws yr ysgol.

167 Yn yr ysgolion ag arfer dda, caiff athrawon y celfyddydau gymorth da ac mae morâl yn dda. Er bod llawer o ysgolion wedi dioddef gostyngiad yn eu cyllideb, yn yr ysgolion ag arfer dda, mae athrawon o'r farn bod digon o gyllid ar gael iddynt sicrhau bod disgyblion yn cael adnoddau o ansawdd uchel a phrofiadau ysbrydoledig. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys gweithio gydag ymarferwyr bywiog y celfyddydau ac ymweliadau dethol sy'n ychwanegu at y cwricwlwm, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion lle ceir arfer dda, ni chaiff mwyafrif o adrannau'r celfyddydau gefnogaeth ddigon da i roi profiadau i ddisgyblion y tu hwnt i'w cymuned leol. Mae llawer o adrannau'r celfyddydau wedi elwa o fuddsoddiadau amserol mewn technoleg.

168 Mae athrawon mewn adrannau llwyddiannus y celfyddydau yn cael cefnogaeth dda gan uwch arweinwyr i wella'u harfer yn gyffredinol, gan gynnwys datblygu eu medrau arwain. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon y celfyddydau'n rhannu arfer dda mewn addysgu a dysgu trwy weithio rhwng ysgolion. Mae'r gwaith hwn ar y cyd yn helpu arweinwyr i ystyried ffyrdd o ddatblygu gwaith eu hadran ymhellach. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith lawn y gwaith hwn o ran gwella safonau disgyblion.

169 Mewn ysgolion lle y mae uwch arweinwyr yn rhoi pwys mawr ar y celfyddydau, gwnânt benderfyniadau strategol ystyriol o ran staffio. Dewisant aelodau staff newydd yn ofalus i ategu medrau ac arbenigedd staff presennol, a rhoddant gyfleoedd da i athrawon wneud y mwyaf o'u gwybodaeth am eu pwnc.

170 Mewn nifer bach iawn o adrannau llwyddiannus, mae nifer y staff wedi gostwng, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r cwricwlwm a llai o opsiynau i'w dewis. O ganlyniad i hyn, mae'r adran wedi colli arbenigedd ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ganlyniadau.

## Arweinyddiaeth ganol

171 Mae'r holl ysgolion ag arfer dda yn elwa o arweinyddiaeth bynciol gadarn yn y celfyddydau. Yn aml, mae'r arweinwyr canol hyn yn athrawon da a rhagorol, gyda lefel uchel o arbenigedd yn eu pynciau. Maent yn arwain eu timau'n dda ac mae ganddynt ymagwedd ddeinamig at ddatblygu eu pwnc.

172 Mae gan yr arweinwyr canol hyn ymrwymiad egnïol i'w hadrannau pwnc. Ânt ati'n weithgar i geisio cyllid a gweithgareddau sy'n fuddiol i ddisgyblion ac maent yn cyfrannu'n dda at fywyd ac amgylchedd yr ysgol trwy drefnu perfformiadau ac arddangosfeydd rheolaidd.

173 Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr pwnc yn trefnu paratoadau at arholiadau er mwyn helpu disgyblion i gyflawni'n dda. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael amser a gofod priodol i gyflawni meini prawf yr arholiad a bod dealltwriaeth dda gan uwch arweinwyr o ofynion, fel y caiff disgyblion y cyfleoedd i berfformio yn unol â'u gorau, er enghraifft fel nad oes rhaid i ddisgyblion sy'n dilyn celf a dylunio ddelio â galwadau gan feysydd pwnc eraill yn ystod eu harholiad ymarferol deg awr. Yn yr adrannau cerddoriaeth a drama ag arfer orau, rhoddir proffil uchel i arholiadau perfformio, gyda chymorth technegol addas i ddisgyblion a chynulleidfa gefnogol.

174 Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr pwnc ymwybyddiaeth dda o ansawdd safonau ac addysgu yn eu pynciau. Maent yn dadansoddi data'n drylwyr ac yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd a systematig i amlygu crfyderau a gwendidau yng nghynnydd a deilliannau disgyblion. Rhannant y wybodaeth hon gyda'u timau i adolygu a mireinio cynllunio gwaith er mwyn cysylltu dysgu'n well ag anghenion disgyblion.

175 Mae'r rhan fwyaf o hunanarfarniadau adrannol yn drylwyr a manwl. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ychydig ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau, mae arweinwyr pwnc yn ceisio arfarnu gwaith eu hadran unigol yn unol â Fframwaith Arolygu Cyffredin cyfan Estyn. Yn aml, mae hyn yn arwain at ddogfennau sy'n rhy hir ac sy'n ceisio ymdrin â gormod o faterion. Mae'r dull hwn yn atal ffocws clir ar negeseuon allweddol yr adran, gan gynnwys negeseuon yn ymwneud â'r busnes craidd, sef addysgu a dysgu yn y celfyddydau.

176 Mewn ychydig adroddiadau hunanarfarnu, nid yw'r dadansoddiad o'r data, yn enwedig yr arfarniad o ddeilliannau grwpiau o ddisgyblion, yn ddigon treiddgar i nodi cynlluniau clir ar gyfer gwella.

177 Mewn bron pob un o'r adrannau pwnc da, mae arweinwyr pwnc yn arsylwi aelodau o'u hadran wrth iddynt addysgu. Rhoddant adborth gwerthfawr sy'n helpu athrawon i wella'u harfer. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o adroddiadau arfarnu pwnc, nid yw gwybodaeth am y cryfderau mewn addysgu a'r meysydd i'w gwella yn cael ei chofnodi'n ddigon manwl i nodi strategaethau clir ar gyfer gwella. Yn y rhan fwyaf o adrannau da, mae athrawon yn arsylwi athrawon eraill yn addysgu, yn anffurfiol. Maent yn helpu ei gilydd i ymestyn eu harbenigedd yn y pwnc. Mewn lleiafrif o adrannau, mae athrawon yn cymryd rhan mewn addysgu tîm i gefnogi ei gilydd ym meysydd y pwnc y mae ganddynt lai o hyfedredd ynddynt.

178 Mae'r holl adrannau pwnc effeithiol yn ysgrifennu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o achosion, nid yw'r cynlluniau hyn yn ddigon pendant ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar dargedau meintiol na'r deilliannau disgwyliedig ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn gallu arfarnu p'un a fu'r cynllun yn llwyddiannus o ran gwella deilliannau disgyblion.

179 Mae llawer o arweinwyr pwnc mewn ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau o'r farn nad oes digon o gyfleoedd ffurfiol i ddatblygu eu medrau yn eu pwnc. Mae llawer ohonynt yn gwerthfawrogi diwrnodau hyfforddi'r pwnc sy'n cael eu cynnig gan fyrddau arholi, ond dywedant mai prin yw'r cyfleoedd i athrawon ddatblygu ac ymestyn eu medrau ymarferol nhw eu hunain a medrau ymarferol aelodau eu hadrannau. Mae nifer bach o arweinwyr pwnc yn trefnu hyfforddiant 'mewnol' trwy drefnu bod ymarferwyr ymweliadol ac athrawon dan hyfforddiant yn yr adran yn rhannu eu medrau gydag athrawon. Mewn ychydig adrannau, mae athrawon yn datblygu medrau newydd, er enghraifft mewn creu delweddau digidol, y tu allan i'r ysgol, ac yn rhannu'r dysgu hwn gyda'u cydweithwyr.

180 Mae llawer o arweinwyr pwnc yn gweithio fel safonwyr i fyrddau arholi. Mae hyn yn golygu bod ganddynt ddealltwriaeth dda o feini prawf asesu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i helpu disgyblion i osgoi maglau cyffredin a gwella'r addysgu yn eu pwnc. Yn ogystal, mae athrawon sy'n gweithio fel safonwyr yn defnyddio'r cyfle hwn i amlygu arfer dda mewn ysgolion eraill a gwella'u cynlluniau gwaith eu hunain.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

### Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o ymweliadau â 30 ysgol uwchradd. Roedd gan yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer yr ymweliadau arfer gadarn yn y celfyddydau creadigol ac fe'u nodwyd o ganlyniad i arolygiadau Estyn neu trwy ddadansoddiad o ddata cyfnod allweddol 3 a data TGAU. Mae maint y sampl yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, fe wnaeth arolygwyr:

- arsylwi gwersi yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4
- adolygu cynlluniau a dogfennau'r cwricwlwm
- cyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion
- cynnal trafodaethau ag arweinwyr canol ac uwch arweinwyr

### Rhestr o ysgolion yr ymwelwyd â nhw

| **Ysgol** | **Pwnc** |
|---|---|
| Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr, Blaenau Gwent | drama |
| Ysgol Basaleg, Casnewydd | cerddoriaeth |
| Ysgol Brynrefail, Gwynedd | cerddoriaeth |
| Ysgol Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr | drama |
| Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy | celf a dylunio |
| Ysgol Dyffryn, Castell-nedd Port Talbot | celf a dylunio |
| Ysgol Eirias, Conwy | celf a dylunio |
| Ysgol Gyfun Bishopston, Abertawe | celf a dylunio |
| Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg | celf a dylunio |
| Ysgol Gyfun Cymer Rhondda, Rhondda Cynon Taf | cerddoriaeth |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd | drama |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd | drama |
| Ysgol Gyfun Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr | drama |
| Ysgol Gyfun Radur, Caerdydd | cerddoriaeth |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Port Talbot | drama |
| Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent | celf a dylunio / cerddoriaeth |
| Ysgol Gyfun y Bont-faen, Bro Morgannwg | celf a dylunio |
| Ysgol Gymunedol Cwmtawe, Castell-nedd Port Talbot | celf a dylunio |
| Ysgol Lewis Pengam, Caerffili | cerddoriaeth |
| Ysgol Pentrehafod, Abertawe | celf a dylunio |
| Ysgol Stanwell, Bro Morgannwg | drama |
| Ysgol Tryfan, Gwynedd | cerddoriaeth |
| Ysgol Uwchradd Caereinion, Powys | celf a dylunio |
| Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd | cerddoriaeth |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd | cerddoriaeth |
| Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff, Wrecsam | drama |
| Ysgol Uwchradd Penarlâg, Fflint | drama |
| Ysgol Uwchradd y Trallwng, Powys | drama |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd | celf a dylunio |
| Ysgol Y Preseli, Sir Benfro | drama |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ap** | Mae’r term ‘ap’ yn gysylltiedig â’r feddalwedd sy’n rhedeg ar ffôn clyfar neu ddyfais llechen. |
| **Codau QR** | Delweddau syml sy’n gallu cael eu sganio, sy’n fath o god bar. Trwy sganio cod QR gan ddefnyddio dyfais symudol fel llechen neu ffôn symudol, mae’n bosibl mynd at amrywiaeth o wybodaeth. Gall fod yn destun, dolenni i ddeunyddiau ar y we, nodau tudalen a chyfeiriadau e-bost. |
| **Cynefineg** | Y defnydd ar y gofod rhwng actorion, neu’r gydberthynas ofodol rhwng actorion ar lwyfan |
| **Eisteddfod** | Unrhyw un o nifer o wyliau blynyddol yng Nghymru, yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn flynyddol ym mis Awst, pan gynhelir cystadlaethau mewn cerddoriaeth, barddoniaeth, drama a’r celfyddydau cain. Bydd ysgolion yn aml yn cynnal eu Heisteddfodau eu hunain, ar Ddydd Gŵyl Dewi neu tua’r adeg hynny fel arfer. |
| **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)** | Dyma fframwaith medrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth yn statudol mewn ysgolion ym Medi 2013 ac mae’n cynnwys asesiad statudol yn unol â’r fframwaith o 2014 ymlaen. Fe’i cynlluniwyd i helpu athrawon i wreiddio llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc ar gyfer dysgwyr rhwng 5 a 14 oed. |
| **Y Cwricwlwm Cymreig** | Mae’r Cwricwlwm Cymreig yn rhan o’r cwricwlwm sy’n unigryw i Gymru. Fe’i lluniwyd i adlewyrchu hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru a bro’r ysgol. Bwriedir i’r Cwricwlwm Cymreig ddatblygu ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth, lle a threftadaeth ddiwylliannol. |

## Cyfeiriadau

Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015), *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020.* Caerdydd: Cyngor Celfyddydau Cymru a Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150302-creative-learning-through-the-arts-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Donaldson, G (2015), *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Estyn (2008) *Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cau%27r%20bwlch%20rhwng%20cyrhaeddiad%20bechgyn%20a%20merched%20mewn%20ysgolion%20-%20Mawrth%202008.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Estyn (2012) *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20afael%20%C3%83%C2%A2%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Estyn (2014) *TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/TGCh%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%3A%20Effaith%20TGCh%20ar%20ddysgu%20disgyblion%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20mewn%20ysgolion%20uwchradd%20-%20Gorffennaf%202014%20%20.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Estyn (2015*), Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2.* Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer_orau_mewn_addysgu_a_dysgu_yn_y_celfyddydau_creadigol_yng_nghyfnod_allweddol_2_-_Mai_2015%20%281%29.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016]

Prydain Fawr (2002) *Deddf Addysg 2002.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/contents [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Smith, D (2013), *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013), *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Athro Dai Smith ar: 'Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru'.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140314-arts-in-education-review-welsh-government-response-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014), *Cymwys am oes, cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015a) *Casglu data cenedlaethol o asesiadau athrawon: cyfnod allweddol 3 – pynciau di-graidd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Non-Core-Subjects [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Casglu data cenedlaethol o asesiadau athrawon: cyfnod allweddol 3 – pynciau craidd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015c) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion 15 oed yn unig) fesul grŵp pwnc.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015d) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.* Heb ei chyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2015e) *Cyrhaeddiad disgyblion 15 oed mewn arholiadau yn ôl blwyddyn.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/examinationachievementsofpupilsaged15-by-year [Defnyddiwyd 24 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015f) *Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.* Heb ei gyhoeddi.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Fiona Arnison | Arolygydd Tîm |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |
| Delyth Gray | Arolygydd Tîm |
| Garry Maher | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mike Haines | Arolygydd Tîm |